Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif Ymchwil Cymdeithasol: 54/2025

Dyddiad Cyhoeddi: 17/06/2025

# Gwerthusiad o Twf Swyddi Cymru +

## fframwaith dadansoddi effaith a chost a budd

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Gymraeg.

This document is also available in English.

OGL © Crown Copyright Digital ISBN 978-1-83715-846-1

Gwerthusiad o Twf Swyddi Cymru +

fframwaith dadansoddi effaith a chost a budd

Awduron: Oliver Allies, Declan Turner

wavehill

Social and economic research

Ymchwil cymdeithasol ac economaidd

Adroddiad Ymchwil Llawn: Allies, O; Abekhon, J; Gallagher, P; Simms, K; Usher, S. (2025). Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 54/2025. Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-ffurfiannol-o-twf-swyddi-cymru-plws-adroddiad-terfynol

Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd yn farn Llywodraeth Cymru

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag:
Eloise Gowing
Uwch Swyddog Ymchwil ar gyfer Addysg a Sgiliau Ôl-16
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 03000253214
E-bost: KASEmployabilityandSkillsResearch@llyw.cymru

## Tabl cynnwys

Rhestr tablau ........................................ 1
Rhestr ffigurau ........................................ 1
Geirfa ........................................ 2
1. Cyflwyniad ........................................ 4
2. Newidynnau ........................................ 5
3. Ffynonellau data allweddol ........................................ 16
4. Cynigion Methodolegol ........................................ 24
5. Asesu gwerth am arian ........................................ 35
6. Crynodeb o Ganfyddiadau ac Argymhellion ........................................ 41
Atodiad A: Dulliau Methodolegol ........................................ 47

## Rhestr tablau

Tabl 2.1: Lefel cymhwyster uchaf cyfranogwyr TSC+ ........................................ 11
Tabl 2.2: Teithiau cyfranogwyr TSC+ yn ôl anghenion ychwanegol ........................................ 15
Tabl 4.1: Enghraifft matrics effaith cost a budd ar gyfer TSC+ ........................................ 31
Tabl 5.1: Enghraifft o ddosbarthiad cost a budd ........................................ 36

## Rhestr ffigurau

Ffigur 1: Amcangyfrif gwahaniaeth-mewn-gwahaniaethau, esboniad graffig ........................................ 49

## Geirfa

**AAAA**

Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd (SEND)

**BCR**

Cymhareb cost a budd

**CThEF**

Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi

**DALY**

Blynyddoedd bywyd wedi'u haddasu yn ôl anabledd

**DiD**

Gwahaniaeth-mewn-gwahaniaethau

**DWP**

Adran Gwaith a Phensiynau

**EMA**

Lwfans Cynhaliaeth Addysg

**FfCChC**

Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (CQFW)

**JSA**

Lwfans Ceisio Gwaith

**LEO**

Canlyniadau Addysg Hydredol

**LFS**

Arolwg o'r Llafurlu

**LLWR**

Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru

**NCCIS**

System Gwybodaeth Llwyth Achosion Cleientiaid Genedlaethol

**NEET**

Pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant

**NPV**

Gwerth presennol net

**ONS**

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

**PSM**

Paru sgorau tueddiad

**QALY**

Blynyddoedd bywyd wedi’u haddasu yn ôl ansawdd

**RCT**

Hap-dreialon dan reolaeth

**SCBA**

Dadansoddi Cost a Budd Cymdeithasol

**SeRP**

Llwyfan eYmchwil Diogel

**SRS**

Y Gwasanaeth Ymchwil Ddiogel

**TLSF**

Arolwg o’r Llafurlu wedi’i Drawsnewid

**TSC+**

Twf Swyddi Cymru+ (Jobs Growth Wales+)

# 1. Cyflwyniad

1.1 Er mwyn cynnal gwerthusiad cadarn o raglen Twf Swyddi Cymru + (TSC+), bydd angen asesu ei heffaith. I gynnal yr asesiad hwn, amlinellir isod fframwaith sydd â methodoleg ymarferol ar gyfer effaith hirdymor y rhaglen. Dylai'r fframwaith effaith ar gyfer y rhaglen hefyd gynnwys dull gwrthffeithiol a dull o ddadansoddi cost a budd. Yn fwy penodol, mae angen i'r fframwaith wneud y canlynol:

- datblygu dangosyddion (i brofi i ba raddau y mae'r canlyniadau bwriadedig a amlinellwyd yn y theori newid wedi'u cyflawni).
- gwneud argymhellion penodol ar gasglu data a thechnegau cysylltu data y byddai eu hangen i gael tystiolaeth i ddangos taith y cyfranogwyr a'r effaith y mae'r cymorth wedi'i chael.

1.2 Mae'r papur hwn yn cynnig opsiynau ar gyfer gwerthuso effaith a'r gofynion cysylltiedig er mwyn cyflawni'r opsiynau hynny. Lle y bo'n briodol, rydym wedi asesu'r data sydd ar gael ac ymarferoldeb yr opsiynau hyn, er ei bod yn debygol y bydd angen trafodaeth bellach i nodi'r dull mwyaf priodol ac ymarferol bosibl o bennu effaith rhaglen TSC+.

1.3 Mae'r fframwaith effaith hwn i ddechrau arni yn nodi'r newidynnau y mae angen eu hystyried fel rhan o unrhyw asesiad o effaith y rhaglen. Yna mae'n nodi sut y gellid cynnal yr asesiad pe bai data a gwybodaeth berffaith ar gael drwy ddefnyddio setiau data gweinyddol, cyn cyflwyno (beth allai fod yn) fframwaith mwy ymarferol ar gyfer asesu effaith gan ddefnyddio metrigau amgen.

## 2. Newidynnau

2.1 Cynhaliwyd adolygiad o brosiectau ymchwil amrywiol ac adroddiadau gwerthuso eraill, yn ogystal â theori newid rhaglen TSC+ er mwyn nodi detholiad o newidynnau addas i fesur effaith yn eu herbyn.

2.2 O fewn y fframwaith effaith mae'n bwysig mesur newidynnau annibynnol a dibynnol er mwyn profi unrhyw berthynas achos-effaith yn ogystal ag amcangyfrif maint yr effeithiau.

- Y **newidyn annibynnol** yw'r achos; y newidyn sy'n cael ei fanipiwleiddio gan ymyrraeth y rhaglen. Mae ei werth yn annibynnol ar newidynnau eraill yn y fframwaith.
- Y **newidyn dibynnol** yw'r effaith; y newidyn(nau) a allai gael eu heffeithio o ganlyniad i newid i'r newidyn annibynnol.

**Newidynnau dibynnol**

2.3 O ystyried cwmpas ymyrraeth TSC+ mae nifer o newidynnau dibynnol allweddol y mae angen eu hystyried yn y fframwaith effaith.

2.4 Y cyntaf yw rôl y rhaglen yn cyfrannu at **ostyngiad yn nifer yr unigolion nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (NEET)**. Mae hwn yn un o amcanion craidd Llywodraeth Cymru a rhaglen TSC+ a'r prif ddangosydd y dylid barnu llwyddiant y rhaglen arno. Gan fod cost economaidd a chymdeithasol i unigolyn sy'n NEET, mae'r gostyngiad yn nifer yr unigolion NEET (neu ostyngiad yn yr amser y mae unigolyn yn NEET) yn dod ag effaith gymdeithasol ac economaidd a fydd yn cael ei modelu a'i chyfrifo drwy fabwysiadu'r fframwaith hwn.

2.5 Ail newidyn dibynnol yw sicrhau **canlyniad cyflogaeth neu brentisiaeth** a'r cynnydd cyfatebol mewn enillion/cyflog y mae hyn yn ei gynhyrchu. Gall y gyflogaeth hon fod yn llawn amser neu'n rhan amser, ond bydd angen ei chategoreiddio ar gyfer y ddau (ynghyd ag asesiad ar wahân ar gyfer canlyniad prentisiaeth) er mwyn gallu cyfrifo gwahaniaethau mewn enillion.

2.6 Trydydd newidyn yw drwy fod cyfranogwr yn cael ei gefnogi i **gymryd rhan/aros mewn rhyw fath o addysg** (nad yw o bosibl ar lefel uwch – canlyniad niwtral er

enghraifft gan TSC+ neu'n ymwneud â'r cymorth hyfforddi a gafodd cyfranogwr drwy'r rhaglen) a'r cyflogadwyedd gwell a allai ddeillio o barhau i fod mewn addysg.

2.7 Mae pedwerydd newidyn dibynnol yn adeiladu ar hyn, ac yn benodol pan fo cyfranogiad mewn addysg/hyfforddiant yn arwain at **gymhwyster uwch** (nag yr oedd ganddynt ar adeg cofrestru â TSC+). Mae cymwysterau uwch yn cynyddu'r tebygolrwydd o enillion uwch yn y dyfodol (ac yn cefnogi carreg filltir Llywodraeth Cymru ar gymwysterau).

2.8 Ystyrir bod dangosyddion eraill yn newidynnau dibynnol ychwanegol yn y fframwaith effaith ac maent yn cynnwys y canlynol:

- **Iechyd a Lles** – Mae unigolion sy'n ddi-waith yn bum gwaith fwy tebygol o fod ag iechyd gwael na phobl sy'n gyflogedig.[1] Daw astudiaethau i'r casgliad bod cysylltiadau mawr rhwng salwch meddwl a bod yn NEET, yn enwedig o ran defnyddio sylweddau.[2] Mae effaith pandemig Covid-19 wedi creu heriau iechyd a lles pellach ar draws cymdeithas ac roedd goblygiadau anghymesur i bobl ifanc (er nad oes unrhyw ymchwil wedi'i nodi hyd yma sy'n trafod y berthynas rhwng Covid-19, bod yn NEET a dangosyddion heriau cymdeithasol/iechyd meddwl).[3] Yn ogystal â manteision eraill peidio â bod yn NEET, mae buddion iechyd a lles tebygol, a gall fod rhai ohonynt fod yn fwy felly o ganlyniad i Covid-19 ac efallai fod eraill yn anodd eu gweld oherwydd yr heriau ychwanegol a grëwyd gan Covid-19. Bydd y buddion hyn yn cynnwys gwelliannau ansawdd i unigolion a gwelliannau meintiol i'r trethdalwr (gweler isod) ar ffurf arbedion iechyd.

  Ymhellach, dengys ymchwil fod perthynas ystadegol arwyddocaol rhwng dysgu, cyflogaeth a **bodlonrwydd â bywyd**[4]; sef mesur allweddol o les goddrychol, personol.[5]

[1] The Health Foundation, 2024 How employment status affects our health - The Health Foundation
[2] Gweler: The mental health of young people who are not in education, employment, or training: a systematic review and meta-analysis, Gariepy et al. Social Psychiatry and Psychiatric Epidemiology 56(6), 2022
[3] COVID-19 mental health and wellbeing surveillance: Report, Office for Health Improvement and Disparities, 2022. Ychydig o ymchwil sydd ar gael ar oblygiadau Covid-19.
[4] Gweler, er enghraifft: London Economics ac Ipsos MORI (2013a) *The Impact of Further Education Learning. Papur Ymchwil BIS rhif 104*.
[5] Gweler, er enghraifft UK Measures of National Well-being Dashboard

- **Trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol** – Mae cysylltiad rhwng pobl ifanc NEET a throseddu gan nad yw rhwng 55 a 65 y cant o droseddwyr ifanc mewn addysg neu gyflogaeth, er bod NEET yn cynnwys ~4 y cant yn unig o'r boblogaeth 16 i 17 oed.[6] Mae cost i droseddu yn sgil yr erlyn ar droseddwyr a'r gweithgarwch adfer, felly rhagwelir y bydd gostyngiad yn nifer y bobl sy'n NEET yn cael effaith ar lefelau troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- **Hyder ac uchelgais** – Er ei fod yn llai mesuradwy fel newidyn, disgwylir i lefel hyder ac uchelgais cyfranogwyr TSC+ wella yn dilyn yr ymyrraeth.[7][8] Mae'n bosibl y bydd gan unigolion sydd wedi cymryd rhan mewn hyfforddiant neu brofiad gwaith drwy'r rhaglen fwy o wybodaeth am gyfleoedd gwaith yn y dyfodol, a allai hefyd wella'r pontio dilynol i gyflogaeth.

**Buddiolwyr eraill TSC+**

2.9 Mae'r fframwaith effaith hwn yn canolbwyntio ar fuddion sy'n gysylltiedig â'r unigolion sy'n cael cymorth, fodd bynnag mae'r ymyrraeth yn debygol o effeithio ar grwpiau allweddol eraill hefyd.

**Cyflogwyr**

2.10 Mae rhaglen TSC+ yn cael effaith gadarnhaol ar gyflogwyr drwy ddarparu cronfa fwy o lafur a all helpu i ddiwallu anghenion cyflogwyr oherwydd yr addysg a'r hyfforddiant y caiff dysgwyr drwy'r rhaglen. Fodd bynnag, (er yr achosion o ddefnyddio'r cymhorthdal cyflog chwe mis) mae angen hefyd gydbwyso costau cyflogi unigolion, ac efallai na fydd y cynhyrchiant a'r sgiliau cymharol a gynigir i unigolion drwy'r rhaglen bob amser yn cyd-fynd ag anghenion cyflogwyr. Felly, gan dybio marchnad berffaith lle mae cyflogwr yn recriwtio oherwydd bod y gost o

[6] Estimating the life-time cost of NEET, Coles et al. University of York Department of Social Policy and Social Work and Department of Health Sciences, Gorffennaf 2010

[7] Skills mismatch and change confidence: the impact of training on change recipients' self-efficacy, Ferrari, European Journal of Training and Development, 47(10), 2022

[8] Yng ngham olaf y gwerthusiad ffurfiannol, chwe mis ar ôl gadael JGW+ roedd 73% (45/62) a 68% (42/62) o ymatebwyr yr arolwg yn teimlo mwy o gymhelliant ac yn fwy hyderus o ganlyniad i'r cymorth. I'r rheiny a oedd yn dal i gael cymorth neu a oedd wedi gadael yn fwy diweddar, mae'r gyfran yn codi i 85% (133/157) ac 82% (129/157) yn y drefn honno.

wneud hynny yn hafal i'r unedau allbwn y gall adnoddau llafur eu cynhyrchu, ystyrir bod y costau a'r buddion a gronnir i fusnes yn niwtral, yn enwedig dros y tymor hir.[9]

**Trethdalwyr**

2.11 Mae cost fesuradwy o gefnogi unigolion sy'n NEET, ac mae'r gost hon yn debygol o dyfu drwy gydol oes person, gan fod y rhai sy'n NEET yn llawer mwy tebygol o fod yn ddi-waith am gyfnodau sylweddol (ac yn fwy tebygol o roi beichiau eraill ar y wladwriaeth les fel yr amlinellwyd yn gynharach yn yr adroddiad).[10]

2.12 Mae costau hefyd yn gysylltiedig â'r refeniw treth a gollir oherwydd nad yw pobl mewn gwaith. Pan nad yw unigolion yn cyfrannu at yr adnodd treth sydd ar gael yn y DU, bydd y swm hwn yn codi drwy gydol oes person. Pe bai'r unigolion hyn yn dod o hyd i waith neu pe byddai cyfanswm eu hamser yn ddi-waith yn cael ei leihau, byddai hyn yn cynyddu lefel y dreth a geir gan y Trysorlys.

**Contractwyr**

2.13 Mae'r contractwyr sy'n cynnal rhaglen TSC+ hefyd yn fuddiolwyr o gofio'r adnoddau ychwanegol a gânt i gynnal y rhaglen a dylai hynny ehangu eu darpariaeth gwasanaeth a gwella eu profiad a'u harbenigedd o ddarparu gwasanaethau. Fodd bynnag, byddai'n anodd iawn amcangyfrif y costau a'r buddion i'r grwpiau hyn, o ystyried cymhlethdod eu modelau gweithredu.

**Newidynnau annibynnol**

2.14 Mae nifer o newidynnau annibynnol sy'n seiliedig ar ddadansoddi gwybodaeth reoli cyfranogwyr TSC+ o 2022 i 2024 yn debygol o gael dylanwad mawr ar y newidynnau dibynnol, gan ddylanwadu felly ar natur yr effaith a gyflawnir, sef:

- A ydynt, ar adeg ymadael TSC+, wedi cael canlyniad cadarnhaol, niwtral neu negyddol.
- A oedd y cyfranogwr wedi gwneud lleoliad gwaith/cwblhau oriau seiliedig ar waith.

---

[9] Defnyddiwyd rhagdybiaeth debyg yn y dadansoddiad cost a budd ar Twf Swyddi Cymru 2
[10] Gweler: Estimating the life-time cost of NEET, Coles et al. University of York Department of Social Policy and Social Work and Department of Health Sciences, Gorffennaf 2010

- Hyd a dwyster y cymorth a gafwyd (nifer yr oriau, a'r cyfnod rhwng dyddiadau cofrestru ac ymadael TSC+).
- Y cymhwyster uchaf cyn ymgysylltu
- Lefel academaidd unrhyw gymhwyster sy'n gysylltiedig â darpariaeth ddysgu (cyfatebol i Fframwaith Credyd a Chymwysterau Cymru – 1, 2 neu 3)
- Oedran ar adeg cofrestru
- Rhywedd
- Ethnigrwydd
- Lleoliad daearyddol (ardal awdurdod lleol)
- A yw unigolyn yn ystyried ei hun i fod ag:
    - anhawster dysgu,
    - anabledd, neu
    - angen iechyd.
- Gallu yn y Gymraeg
- Pa mor hir y maent wedi bod yn NEET ar adeg cofrestru

2.15 Archwilir isod ddylanwad posibl pob un o'r rhain ar y prif newidynnau dibynnol.

**Cael cymorth datblygu dysgu neu gwblhau cwrs hyfforddi**

2.16 Mae sawl maes yn y llinynnau cymorth a gynigir gan TSC+ a fydd yn arwain at gwblhau rhyw fath o hyfforddiant neu gymorth. Bydd y gweithgareddau hyn yn golygu mwy o wybodaeth a gallu ymhlith yr unigolion a gynorthwyir ac yn arwain at newidiadau mewn newidynnau dibynnol megis hyder ac uchelgais, cyflawni sgiliau a chanlyniadau cyflogaeth posibl.

2.17 Bydd angen categoreiddio data ar y rhai sydd wedi cwblhau cyrsiau neu ymyriadau cymorth drwy TSC+ gan eu categoreiddio yn ôl natur yr ymyrraeth. Yn ddelfrydol, bydd yr asesiad effaith yn profi pa fathau o gymorth sydd wedi arwain at ba effeithiau ymhlith y cyfranogwyr, a gellid defnyddio'r mewnwelediad hwn i fodelu canlyniadau ar y newidynnau dibynnol. Ond mae amrywiaeth a natur bwrpasol y

cymorth a roddir i unigolion yn cyflwyno heriau o ran categoreiddio a dosbarthu. Felly, caiff hyn ei ategu gan oriau cymorth (gweler isod) er y cydnabyddir nad yw hyd neu ddwyster y cymorth yr un fath ag ansawdd a'i fod yn briodol i'r cyfranogwr.

2.18 Ymhellach, pan fo'r cymorth yn dileu rhwystrau i ddysgu a chyflogaeth, gall hyn symud y cyfranogwr ymhellach ar hyd taith TSC+ fesul cam, er o bosibl na fydd (eto) yn amlygu ei hun fel newid yn y newidynnau dibynnol.

**Gwneud lleoliad gwaith**

2.19 Mae nifer o opsiynau mynd ar leoliad gwaith ar gael i gyfranogwyr o dan TSC+. Mae treialon gwaith yn cynnig un diwrnod i gyfranogwr gyda chyflogwr. Gellir trefnu lleoliad gwaith hirach am sawl wythnos hefyd i gefnogi cyfranogwyr. Yn olaf, gall cyfranogwyr dderbyn hyd at 6 mis o gyflogaeth â chymhorthdal trwy'r rhaglen (mae 50% o'r isafswm cyflog cenedlaethol wedi'i sybsideiddio i'r cyflogwyr).

2.20 Mae lleoliadau gwaith yn esgor ar ystod o ganlyniadau ac effeithiau a gwmpesir gan y newidynnau dibynnol a amlinellir uchod. Pan fo unigolyn wedi cael profiad gwaith trwy leoliad, dengys ymchwil bod eu canlyniadau cyflogaeth yn gwella.[11] At hynny, mae perthynas ystadegol arwyddocaol wedi'i dangos rhwng unigolion nad ydynt yn cael profiad ymgysylltu â chyflogwyr a'r risg o ddod yn NEET.[12] Yn ogystal, po agosaf o ran amser yw'r profiad gwaith i fynediad unigolyn i'r farchnad lafur, y mwyaf yw'r potensial i gael swydd.[13]

2.21 Mae rhywfaint o dystiolaeth hefyd i awgrymu bod y berthynas rhwng ymgysylltu â chyflogwyr a phrofiad gwaith yn gryfach o ran cael cyflogaeth po isaf yw cymhwyster uchaf unigolyn.[14] O ystyried y berthynas gref rhwng unigolion sy'n NEET a'u tebygolrwydd o fod â lefelau cymhwyster isel,[15] dylai rôl profiad gwaith wrth gefnogi unigolion o'r fath i gyflogaeth fod yn gryf felly. Mae Tabl 2.1 yn dangos

[11] Work Experience: A quantitative impact assessment, Yr Adran Gwaith a Phensiynau, Mawrth 2016
[12] It's who you meet, Mann ar ran Tasglu Addysg a Chyflogwyr, 2011, diweddarwyd dadansoddiad data cychwynnol yn 2015 i awgrymu bod arwyddocâd ystadegol i NEET yn gysylltiedig â dwyster a nifer y gweithgareddau ymgysylltu â chyflogwyr.
[13] Mann, A. (2012) 'Work Experience: Impact and delivery – insights from evidence, WK EXP Report Draft 3 (educationandemployers.org)
[14] Ibid
[15] Gweler: Brown, C., Rueda, P., Batlle, I. & Sallán, J. (2021). Introduction to the special issue: a conceptual framework for researching the risks to early leaving, Journal of Education and Work, 34:7-8, 723-739 i gael crynodeb defnyddiol.

bod hyn hefyd yn nodwedd allweddol o'r garfan o bobl ifanc y mae TSC+ yn gweithio gyda nhw gan fod dros 60 y cant o'r cyfranogwyr a ddechreuodd rhaglen TSC+ yn meddu ar gymhwyster NQF Lefel 1 neu uwch.

**Tabl 2.1: Lefel cymhwyster uchaf cyfranogwyr TSC+**

| Lefel cymhwyster uchaf | Canran y cyfranogwyr |
|---|---|
| Lefel 2 neu uwch | 39% |
| Lefel 1 | 24% |
| Lefel mynediad | 4% |
| Lefel cyn mynediad | 33% |

Ffynhonnell: Gwybodaeth reoli TSC+ n=11,972

2.22 Mae gwneud profiad gwaith hefyd yn debygol o wneud dyheadau gyrfa yn gliriach,[16] ac mae'n gysylltiedig â'r newidyn dibynnol hyder ac uchelgais uchod, yn ogystal â chyrhaeddiad academaidd pellach (yn gysylltiedig â chyflawni lefelau sgiliau uwch, er y byddai hyn yn dilyn gweithgaredd dilynol). Gall profiad gwaith hefyd arwain at welliannau i fodlonrwydd â bywyd yn yr un ffordd ag y mae mynd i gyflogaeth ystyrlon, er bod llai o dystiolaeth empirig ar gyfer y berthynas hon.

2.23 Bydd ansawdd a dyfnder y profiad gwaith a gaiff unigolion drwy TSC+ (ac unrhyw brofiad gwaith neu waith rhan amser y mae unigolyn eisoes wedi'i gwblhau) yn effeithio ar y canlyniadau a gyflawnir.[17] Yn yr asesiad hwn rhagdybir po fwyaf yw hyd y profiad gwaith y mwyaf abl y bydd unigolion i ddatblygu sgiliau cyflogadwyedd a chanlyniadau cadarnhaol. Roedd ymchwil a ddyfynnwyd yn Mann et al (2014) yn cyfeirio at arolwg YouGov (2011) i bobl ifanc 19-24 oed a ofynnodd iddynt nodi nifer y gweithgareddau ymgysylltu â chyflogeion yr oeddent wedi'u gwneud rhwng 14 a

[16] Mann, A. (2012) 'Work Experience: Impact and delivery – insights from evidence, WK EXP Report Draft 3 (educationandemployers.org)

[17] Employer Engagement in Education: Theories and Evidence, Mann et al. Routledge, 2014, Sylwer: mae'r astudiaethau hyn yn canolbwyntio ar unigolion oedran ysgol a'u tebygolrwydd o ddod yn NEET.

19 oed, eu statws NEET presennol a lefel eu fenillion/cyflog (os oeddynt mewn cyflogaeth amser llawn). Datgelodd y dadansoddiad “fantais gref yn gysylltiedig ag ymgysylltu â chyflogwyr” hyd yn oed ar ôl rheoli ar gyfer ffactorau fel lefel addysg a chefndir cymdeithasol. Canfu’r ymchwil fod cyfranogwyr sy’n cael mwy o gyswllt â chyflogwyr “yn sylweddol llai tebygol o fod yn NEET… ac yn fwy tebygol o fod yn ennill ar lefel uwch” yn ogystal ag “yn fwy tebygol o fod yn hyderus yng ngwerth eu gweithgareddau presennol”.[18]

2.24 Rhan bwysig o’r gwaith asesu effaith fydd gwahaniaethu rhwng effaith lleoliadau gwaith sydd â chymhorthdal, profiad gwaith, a threialon gwaith a’r cyfnodau gwahanol y mae cyfranogwyr ynddynt. Er y gallai buddion cronnol treialon gwaith gyda’i gilydd (y disgwylir iddynt fod am un diwrnod yr un) gyd-fynd â hyd profiad gwaith byr, mae’n debygol y bydd gwahaniaethau amlwg yn y gweithgareddau a gyflawnir; gall y treialon gynnwys cysgodi ac arsylwi tra dylai profiad gwaith a lleoliadau olygu cyflawni tasgau go iawn (byddid yn disgwyl i ganlyniadau cyflogaeth uwch gael eu gwireddu ymhlith cyfranogwyr a gwblhaodd leoliad 6 mis gyda chymhorthdal na sawl diwrnod o dreialon gwaith). Felly, rhoddir ystyriaeth i oriau seiliedig ar waith sy’n gyfwerth ag o leiaf bythefnos llawn amser (70 awr) yn ogystal â lleoliadau gwaith â chymhorthdal er mwyn ystyried yr effaith y gallai ei chael ar y newidynnau dibynnol.

2.25 Bydd angen ystyried effaith rhoi cymhorthdal i gyflogau’r cyfranogwyr hynny sydd wedi gwneud lleoliad gwaith er mwyn cyfrif am wariant y cymhorthdal fel cost. Bydd y graddau y mae cyfranogwyr yn aros yn eu cyflogaeth unwaith y bydd cymhorthdal wedi dod i ben neu’n gallu dod o hyd i gyflogaeth arall yn faes allweddol i’r asesiad effaith ei adolygu.

**Hyd a dwyster y cymorth**

2.26 Er y cydnabyddir bod hwn yn newidyn di-fin o ystyried ffactorau eraill sy’n effeithio ar ansawdd ymyrraeth sy’n rhoi cymorth i berson ifanc sy’n NEET, dyma’r diffiniad cliriaf sydd ar gael yn nata TSC+ lle defnyddir ymyriadau pwrpasol. Mae tystiolaeth yn bodoli sy’n dangos bod rhyw fath o berthynas rhwng nifer yr oriau o gymorth a

[18] Ibid.

chyflawni canlyniadau ar gyfer rhaglenni sy’n targedu unigolion NEET[19] ac felly mae hyd yr oriau cymorth ochr yn ochr ag asesu’r amser aeth heibio (cymharu dyddiadau cofrestru ac ymadael) yn newidyn annibynnol defnyddiol ar gyfer pennu effeithiau rhaglen TSC+. Fodd bynnag, dylid nodi na fydd pob canlyniad yn cydberthyn i hyd ac/neu ddwyster y cymorth, a gall rhai unigolion gyflawni canlyniadau cadarnhaol gyda llai o oriau o gymorth nag eraill. Mae’n bosibl bod ansawdd y cymorth a geir hefyd yn chwarae rhan wrth ffurfio’r effeithiau ar ddysgwyr.

**Cymhwyster uchaf cyn cymryd rhan**

2.27 Mae ymchwil yn nodi’n eang bod gan lefel cymhwyster unigolyn gydberthynas gref â chyflogaeth (ac enillion).[20] Mae yna hefyd gydberthynas gref rhwng lefel cymhwyster a bod yn NEET. Gall y rhai sydd wedi gwella ar lefel eu cymhwyster gwreiddiol hefyd geisio datblygu sgiliau a hyfforddiant pellach, hyd yn oed os nad ydynt yn ymuno â’r farchnad lafur.

2.28 Felly mae manylion lefel cymhwyster uchaf cyfranogwr TSC+ cyn cymryd rhan mewn unrhyw gymorth yn newidyn pwysig ar gyfer y fframwaith effaith, yn enwedig os mabwysiedir model ‘polisïau eraill’ ar gyfer nodi’r gwrthffeithiol (gweler adran 4 isod i gael rhagor o fanylion).

**Lefel cwrs FfCCHC[21]**

2.29 Bydd lefel academaidd y cwrs y mae cyfranogwr TSC+ yn ei gwblhau hefyd yn dylanwadu ar ganlyniadau’r unigolyn.[22] Pan fydd unigolyn yn cwblhau cwrs sydd naill ai’n uniongyrchol gysylltiedig â rôl swydd benodol neu sy’n cynyddu nifer y cymwysterau sydd gan yr unigolyn, gellir disgwyl gwelliannau ar draws y

[19] What works re-engaging young people who are not in education, employment or training (NEET)? Yr Adran dros Addysg/Department for Education: Young People Analysis Division, 2010
[20] Hodge, L. Little, A. ac Weldon, M. (2021) ‘GCSE attainment and lifetime earnings’ (publishing.service.gov.uk) Yr Adran dros Addysg
[21] Mae Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (CQFW) yn rhoi fframwaith cyffredin i egwyddorion a safonau cyffredin er mwyn mesur, dyfarnu a chymharu cyflawniad dysgu a hyfforddiant ar draws dysgu o 14 oed ymlaen. Ceir rhagor o fanylion am ei gynnwys a’i egwyddorion yn: CQFW-Elyfr-04-2012.pdf (ntfw.org)
[22] Gweler, er enghraifft: Pwyllgor Addysg Tŷ’r Cyffredin (2020) A JGW+n for an adult skills and lifelong learning revolution – third report of session 2019–21 (sy’n cyfeirio at dystiolaeth sy’n dangos amrywiad yn y gyfradd cynyddran cyflog wrth gymharu lefel academaidd ac oedran y dysgwr).

newidynnau dibynnol. O ganlyniad, mae hyn yn fwyaf tebygol o fod yn uniongyrchol gysylltiedig â chodi lefel sgiliau uchaf yr unigolyn.

**Rhywedd**

2.30 Mae bwlch yn y gyfradd NEET rhwng menywod o gymharu â gwrywod yng Nghymru. Yn draddodiadol, roedd dynion 16 i 18 oed yng Nghymru yn fwy tebygol o fod yn NEET (hyd at 2019) ond mae'r bwlch wedi gwrthdroi gyda data diweddaraf yn dangos bod 15.5% o fenywod yng Nghymru yn NEET o gymharu ag 11.2% o wrywod yn yr un garfan oedran.[23] Er bod cryn amrywiaeth yn y canlyniadau diweddar, o bosibl oherwydd effaith pandemig Covid-19, mae rhywedd yn effeithio ar fod yn NEET ac felly rhaid ei gynnwys mewn unrhyw ganfyddiadau asesiad effaith.

**Ethnigrwydd**

2.31 Mae amrywiad mewn cyfraddau NEET yng Nghymru yn ôl ethnigrwydd. Mae'r data diweddaraf yn dangos bod grwpiau ethnig Gwyn yng Nghymru yn fwy tebygol o fod yn NEET (13.8%) na grwpiau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (7.5%).[24] Mae'n debygol fod demograffeg yng Nghymru yn chwarae rhan yn hyn o beth o ystyried bod cyfradd NEET ledled y DU yn fwy cyfartal ar draws pob grŵp ethnig.[25]

**Lleoliad daearyddol**

2.32 Mae'r man lle mae unigolyn yn byw yn gallu dylanwadu ar ei debygolrwydd o fod yn NEET. Mae gan y rhai sy'n byw yn Ne-ddwyrain Cymru (12.5%) gyfran is o unigolion a oedd yn NEET (16 i 24 oed) nag yn y Canolbarth a'r De-orllewin (14.9%).[26] Mae tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg trwy raglen TSC+ hefyd yn awgrymu amrywiad mawr mewn canlyniadau cadarnhaol yn ôl lleoliad sy'n dangos bod daearyddiaeth yn chwarae rhan yn llwyddiant cyfranogwyr. Bydd profi sut mae'r newidyn annibynnol hwn yn effeithio ar y newidynnau dibynnol yn rhoi

[23] Pobl ifanc heb fod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET): Gorffennaf 2022 i Fehefin 2023, Ystadegau Cymru, Hydref 2023
[24] Ibid
[25] Pobl ifanc heb fod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET), ONS, 2021
[26] Ibid

mewnwelediad defnyddiol ynghyd â’r gallu i wahanu effeithiau fesul ardal ddaearyddol.

**A yw cyfranogwr yn ystyried bod ganddynt anhawster dysgu, anabledd neu broblem iechyd**

2.33 Mae gwahaniaeth mawr yng nghyfraddau NEET ymhlith unigolion yng Nghymru sydd ag anabledd, gydag 20% o bobl ifanc 16 i 18 oed sy’n anabl yn NEET o gymharu â 7% heb anabledd datganedig. Mae data cyfranogwyr TSC+ yn dangos bod 24% o gyfranogwyr y rhaglen wedi datgan math o nam. Mae hyn yn dangos bod y rhaglen eisoes yn dangos rhywfaint o lwyddiant o ran recriwtio pobl ifanc â rhyw fath o nam. Mae anabledd yn un o brif achosion bod yn NEET ar ôl 18 oed, gyda 39% o bobl anabl 19 -24 oed yn NEET. Bydd angen i’r asesiad effaith felly ystyried yr effeithiau y mae TSC+ yn eu cael ar yr unigolion hynny sy’n anabl a’r buddion/effeithiau ychwanegol y gallai unrhyw gymorth eu cael ar leihau cyfraddau NEET ymhlith y grŵp hwn. Mae Tabl 2.2 isod yn dangos sut mae taith yn amrywio yn dibynnu ar y gwahanol anghenion ychwanegol.

**Tabl 2.2: Teithiau cyfranogwyr TSC+ yn ôl anghenion ychwanegol**

| Anghenion Ychwanegol | Cyfanswm | Canlyniad positif | Canlyniad negyddol | Cyflogaeth fel % o’r canlyniadau cadarnhaol | Cyflogaeth o’r boblogaeth gyfan gan gynnwys y rhai sy'n dal i fod yn weithredol |
|---|---|---|---|---|---|
| Anawsterau corfforol ac/neu feddygol | 331 | 65% | 35% | 25% | 12% |
| Anawsterau dysgu cymedrol i ddwys | 269 | 58% | 42% | 32% | 14% |
| Unrhyw anabledd | 2877 | 57% | 43% | 27% | 11% |
| Anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol | 1007 | 56% | 44% | 22% | 9% |
| Anhawster dysgu penodol | 1263 | 55% | 45% | 30% | 12% |
| Dim anabledd | 8840 | 62% | 38% | 36% | 17% |

Ffynhonnell: Gwybodaeth reoli TSC+

## 3. Ffynonellau data allweddol

3.1 Gan ystyried y newidynnau o ddiddordeb a amlinellwyd yn yr adran flaenorol, mae nifer o ffynonellau data allweddol a fydd yn ddefnyddiol wrth lunio asesiad effaith ar gyfer TSC+. Crynhoir y ffynonellau hyn ynghyd â'u cyfyngiadau posibl isod.

### SAIL databank

3.2 Mae SAIL databank yn cynnwys ystod eang o setiau data ar iechyd, trosedd, addysg a phlant ar gyfer poblogaethau ac is-setiau amrywiol ledled Cymru. Mae gwybodaeth o Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) ar gael yn y gronfa ddata a gellir cysylltu'r cofnod hwn â setiau data gweinyddol eraill megis gwybodaeth am ddarpariaeth iechyd a gwybodaeth am ddiffynyddion troseddol a hyn yn rhoi modd profi ystod o ganlyniadau ar gyfer cyfranogwyr yn rhaglen TSC+. Fodd bynnag, ni fyddai'r data presennol sydd ar gael yn SAIL yn cwmpasu'r holl ganlyniadau posibl y gallai'r rhaglen esgor arnynt.

3.3 Ceir mynediad i SAIL drwy'r Llwyfan eYmchwil Diogel (SeRP) ac mae'r newidynnau sydd wedi'u cynnwys yn y setiau data sydd ar gael yn eang. Yn berthnasol i asesiad effaith o TSC+, mae data demograffig (gan gynnwys oedran, ethnigrwydd a rhyw), cyfranogiad mewn dysgu (cwrs a lefel) yn ogystal â llu o wybodaeth iechyd.

3.4 Fodd bynnag, byddai angen cysylltu â data eraill i archwilio effeithiau'r rhaglen ar NEET, yn ogystal â chyflogaeth. Byddai angen ymchwilio i bosibiliadau cysylltiadau data o'r fath yn SAIL i ddeall y potensial ar gyfer cynnal dadansoddiad ar gyfer rhaglen fel TSC+. Efallai y byddai mewnwelediad o gronfa ddata SAIL yn ddefnyddiol i ategu data ehangach a gasglwyd o ffynonellau eraill.

3.5 Gall posibiliadau eraill godi wrth ddefnyddio data mawr (pe bai digon o bŵer dadansoddi ac adnoddau ar gael) drwy dynnu data o raglenni fel TSC+ a'i alinio â data cydgysylltiedig o gronfa ddata SAIL. Un potensial fyddai nodi lle mae dysgwyr mewn mwy o berygl o ddod yn NEET yn seiliedig ar ddangosyddion o setiau data eraill. Er enghraifft, gellid defnyddio modelau dadansoddi mawr i archwilio patrymau data o ffynonellau megis achosion llys teulu, gwybodaeth iechyd a data cyfrifiad am blant sy'n derbyn gofal a chymorth i nodi lle mae pobl ifanc yn debygol o ddod yn

NEET yn seiliedig ar batrymau tebyg ymhlith unigolion sydd wedi cael cymorth TSC+. Byddai gweithgarwch o'r fath yn adeiladu ar fentrau blaenorol sydd â'r nod o sicrhau dull tebyg o nodi tebygolrwydd NEET yn gynnar ac er y byddai'n eistedd y tu allan i unrhyw fframwaith gwerthuso neu effaith ar gyfer TSC+ mae'n rhywbeth y dylai Llywodraeth Cymru ei archwilio.[27]

**Labordy Data Cyflogaeth**

3.6 Mae'r Labordy Data Cyflogaeth yn adnodd wedi'i ddarparu gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP). Mae'r labordy yn cynnig dadansoddiad am ddim i sefydliadau sy'n rhoi cymorth cyflogaeth trwy baru data cyfranogwyr â setiau data gweinyddol i ddangos canlyniadau. Gellir defnyddio'r data hefyd i greu'r gwrthffeithiol yn seiliedig ar nodweddion tebyg i'w defnyddio fel cymaryddion. Yna caiff effeithiau amcangyfrifedig y rhaglen eu cyfrifo a'u crynhoi mewn adroddiad a gwblhawyd gan dîm yr Adran Gwaith a Phensiynau ar ran y rhaglen (TSC+ yn yr achos hwn).[28]

3.7 Mae'r Labordy Data Cyflogaeth yn defnyddio data adnabyddadwy gan gyfranogwyr i'w baru â setiau data gweinyddol ac felly mae'n rhaid bod modd rhannu'r data. Ar ôl paru cyfranogwyr, bydd y Labordy Data yn cynnal dadansoddiad i ddangos canlyniadau grwpiau ymyrraeth a gwrthffeithiol, gan ddiystyru effaith y gwrthffeithiol i roi effeithiau net. Gall y data hefyd roi mewnwelediad canlyniadau sy'n fwy i'r hirdymor nag sydd ar gael yn ystod rhaglenni gweithredol ymyriadau fel TSC+ er mwyn bod yn sail i'w perfformiad o ran effaith barhaus. Gall y dadansoddiad gynnwys canran y cyfranogwyr mewn cyflogaeth 6, 12, 18 neu 24 mis ar ôl dechrau'r rhaglen, nifer cyfartalog yr wythnosau a dreuliwyd mewn cyflogaeth 6, 12, 18 neu 24 mis ar ôl dechrau'r rhaglen, a chanran y cyfranogwyr nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) 6, 12, 18 neu 24 mis ar ôl dechrau'r rhaglen. Gellid hefyd ddadansoddi data arall ar yr amser a dreuliwyd yn chwilio am waith.

---

[27] Archwiliodd Llywodraeth Cymru yn 2014 ddefnyddio data ar gyfer nodi tebygolrwydd NEET yn gynnar, er y byddai cynyddu galluoedd modelau dadansoddi amryw o elfennau yn gallu cynnig mwy o gyfleoedd i gynhyrchu mewnwelediad cywir i'r risg o ddod yn NEET. Gweler Nodi'n gynnar, Canllawiau ymarfer effeithiol, Llywodraeth Cymru, 2014

[28] Sylwer: Er mwyn defnyddio'r labordy data, rhaid i'r sefydliadau gytuno i'r adroddiad gael ei gyhoeddi ar-lein ar ôl i'r sylwadau gael eu trafod.

3.8 Mae'r ffynonellau data a ddefnyddir gan y Labordy Data Cyflogaeth yn cynnwys:

- data gweinyddol yr Adran Gwaith a Phensiynau sy'n cwmpasu budd-daliadau a nodweddion,
- data gweinyddol CThEF ar dreth a all roi manylion cyfnodau cyflogaeth, a
- setiau data Canlyniadau Addysg Hydredol (LEO) sy'n gallu dangos yr amser a dreuliwyd mewn addysg a hyfforddiant yn ogystal â'r cymwysterau a enillwyd, a hefyd rhai nodweddion eraill gan gynnwys unrhyw anghenion addysgol arbennig a chymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim.

3.9 O ystyried y cysylltiadau ar draws setiau data amrywiol, fod y gwasanaeth yn ddi-dâl ac y gall ddarparu canlyniadau hirdymor yn ogystal ag effeithiau gwrthffeithiol, mae defnyddio'r Labordy Data Cyflogaeth i asesu effaith rhaglen TSC+ felly yn opsiwn effeithiol. Mae rhai heriau, fodd bynnag; mae oedi amser o sawl blwyddyn i rywfaint o'r data (fel set ddata Canlyniadau Addysg Hydredol [LEO]); mae prydlondeb y dadansoddi yn dibynnu ar adnoddau'r Labordy Data Cyflogaeth ar y pryd; a derbynnir tasgau dadansoddi data yn ôl disgresiwn y Labordy Data Cyflogaeth ac mae angen data mewnbwn cyson a dibynadwy am gyfranogwyr. Y prif newidynnau sydd eu hangen ar gyfer paru â'r Labordy Data Cyflogaeth yw Enw, Dyddiad Geni, Cod Post (a llinellau cyfeiriad eraill os ydynt ar gael). O ystyried bod y data hwn yn cael ei gasglu ar gyfer cyfranogwyr TSC+, cyn belled â bod Llywodraeth Cymru yn fodlon ar rannu data â'r Adran Gwaith a Phensiynau, dylai fod modd dadansoddi drwy'r Labordy Data Cyflogaeth.

3.10 Fodd bynnag, o ystyried ffocws allbynnau'r Labordy Data Cyflogaeth ar gyflogaeth a chanlyniadau NEET, bydd yn dal angen cynnal asesiadau effaith ehangach i lywio rhai o'r newidynnau dibynnol eraill yr amlinellwyd uchod.

**Canlyniadau Addysg Hydredol (LEO)**

3.11 Mae set ddata LEO yn casglu data addysgol (gan gynnwys y rhai a gasglwyd drwy'r LLWR) ochr yn ochr â chyflogaeth, budd-daliadau ac enillion yn y blynyddoedd ers cofrestru mewn darpariaeth ddysgu ôl-16, gan alluogi ymchwil canlyniadau addysg i'r tymor hirach. Mae'r set ddata ar gael trwy Wasanaeth Ymchwil Diogel (SRS) yr ONS ac, felly, rhaid i'r defnyddiwr fod yn ymchwilydd achrededig.

3.12 Mae set ddata LEO yn cynnwys data a dynnwyd o'r LLWR ar lu o newidynnau o bwys ar gyfer mesur effaith rhaglen TSC+, gan gynnwys:

- Dyddiad dechrau a gorffen dysgu
- Cymryd rhan mewn cwrs dysgu
- Hawlwyr budd-daliadau (y gellir eu defnyddio i nodi NEET)
- Data demograffig (gan gynnwys rhyw, oedran, ethnigrwydd, anabledd, a statws priodasol)
- Lefel y dysgu (ar ffurf ddisgrifiadol ac/neu rifiadol)
- Cyrhaeddiad addysgol blaenorol

3.13 Gellir cysylltu data LEO hefyd â setiau data eraill megis y Gofrestr Ryngadrannol o Fusnesau, sy'n cynnwys newidynnau yn ymwneud â diwydiant a chyflogaeth, a'r Cyfrifiad, sy'n rhoi newidynnau economaidd-gymdeithasol. Mae trafodaethau yn digwydd hefyd ynghylch cysylltu data LEO â data trosedd a chyfiawnder a gwybodaeth am Anghenion Addysgol Arbennig neu Anabledd (SEND).

3.14 Gall set ddata LEO felly fod yn opsiwn ar gyfer olrhain canlyniadau tymor hwy cyfranogwyr TSC+ yn eu perfformiad addysgol. Gall LEO hefyd ddarparu grŵp cymharu defnyddiol ar gyfer ymyrraeth TSC+ trwy baru cyfranogwyr ag eraill nad ydynt yn derbyn cymorth o dan raglen TSC+ sydd â nodweddion tebyg. Fodd bynnag, mae nifer o gyfyngiadau ar ddata LEO y mae angen eu hamlinellu:

- Mae oedi sylweddol yn gysylltiedig â data LEO; mae'r wybodaeth ddiweddaraf a gyhoeddwyd yn defnyddio gwybodaeth o 2021 i 22.
- Gall newidynnau sydd ar gael yn LEO ddangos a yw person yn NEET, ond ni fydd y rhain yn cwmpasu pob posibilrwydd ac felly mae'n debygol y bydd bylchau yn y data neu wallau wrth baru. Byddai angen cysylltu â'r System Gwybodaeth Llwyth Achosion Cleientiaid Genedlaethol (NCCIS) mwy cywir i gryfhau'r data a chan na chaniateir cysylltu data personol â LEO awgrymir y byddai hyn yn atal datblygu grŵp rheoli mwy cywir.

3.15 Wrth ddefnyddio data LEO i fod yn sail i effeithiau hirdymor neu wrthffeithiol ar gyfer asesu effaith rhaglen TSC+, mae’r cyfyngiadau hyn, yn enwedig heriau adnabod unigolion sy’n NEET, yn cyfyngu ar effeithiolrwydd defnyddio cronfa ddata LEO. Ymhellach, byddai angen cryfhau’r newidynnau a gipiwyd fel rhan o raglen TSC+ i sicrhau y gellid sefydlu cyfatebiaeth gref. Gan fod data LEO hefyd ar gael drwy’r Labordy Data Cyflogaeth gall hwnnw o bosibl fod yn llwybr gwell i gael mynediad at y set ddata hon a’i defnyddio.

**Arolwg o’r Llafurlu**

3.16 Mae’r Arolwg o'r Llafurlu (LFS) yn arolwg o aelwydydd sy’n byw mewn cyfeiriadau preifat yn y DU. Ei ddiben yw darparu gwybodaeth am farchnad lafur y DU y gellir ei defnyddio wedyn i ddatblygu, rheoli, gwerthuso ac adrodd ar bolisïau’r farchnad lafur. Ers 1992, gyda hwb sampl, mae’r ONS wedi cyhoeddi amcangyfrifon arolwg yr LFS yn chwarterol, ond yn ddiweddar bu gostyngiad yn y cyfraddau ymateb sy’n ofynnol ar gyfer cyhoeddi data digon cadarn gan arwain at atal a dileu’r LFS ym mis Hydref 2023. Mae’r ONS wedi bod yn gweithio ar ddisodli’r LFS gydag Arolwg o’r Llafurlu wedi’i Drawsnewid (TLFS) a gynlluniwyd i fynd yn fyw yng ngwanwyn 2024, fodd bynnag mae heriau wrth ei weithredu wedi arwain at oedi yn ei weithredu hyd at 2026. Bydd angen asesu natur yr arolwg hwn sydd wedi’i ddiweddaru a chryfder y data ar ôl ei ryddhau. Mae’r data ar gael i unigolion sy’n ymchwilwyr diogel ONS.

3.17 Mae’r LFS yn cynnwys llu o newidynnau sy’n bwysig ar gyfer cynnal asesiad effaith o TSC+, gan gynnwys:

- Data demograffig (gan gynnwys rhyw, oedran, ethnigrwydd ac anabledd)
- Statws cyflogaeth
- A yw unigolyn mewn addysg, prentisiaeth neu gynllun hyfforddi’r Llywodraeth ar hyn o bryd
- Sector diwydiannol galwedigaeth a chod galwedigaeth
- Lefel cymhwyster uchaf

3.18 Er bod data ar gyfer yr LFS yn cael ei ryddhau’n gyflymach (gan amlaf gydag oedi o 3 i 6 mis) nag LEO, mae heriau gyda chyfraddau ymateb wedi amharu ar hyn ac nid

yw'n glir ar hyn o bryd pa ymateb fydd yr ONS yn ei gynhyrchu. Gan fod yr LFS yn seiliedig ar ddata arolwg o sampl o gartrefi, gall lefel y paru y gellir ei gyflawni fod yn fwy cyfyngedig, yn enwedig wrth geisio rheoli ar gyfer nodweddion penodol ar oedran ifanc.

3.19 Yn olaf, mae rhai newidynnau y gellir eu defnyddio i ddangos a yw ymatebydd i'r LFS yn NEET ai peidio, fodd bynnag nid yw'r rhain yn cwmpasu pob posibilrwydd. Mae hyn yn golygu bod cyfyngiadau yn y graddau y gellir gwneud unrhyw gymariaethau heb baru data ychwanegol o'r NCCIS. Roedd hyn yn broblemus o ystyried cyfyngiadau paru data'r LFS, yn ogystal â bod yn anos ei gysylltu â sampl yr LFS o ystyried niferoedd bach posibl o bobl ifanc 16 i 18 oed sy'n NEET yn y sampl honno, o gymharu â'r boblogaeth lawn.

**Data arolwg i gyfranogwyr**

3.20 Bydd casglu effeithiau hunangofnodedig rhaglen TSC+ yn rhoi modd casglu tystiolaeth ddefnyddiol ar ganlyniadau teithiau amrywiol y cyfranogwyr. Bydd gwaith maes sylfaenol yn rhan arbennig o bwysig gan fod effeithiau'n llai tebygol o gael eu nodi mewn data gweinyddol o ystyried naws y canlyniadau neu y bydd yn dioddef o oedi wrth gyhoeddi'r data.

3.21 Mae arolwg sylfaenol i gyfranogwyr hefyd wedi rhoi modd i'r gwerthusiad brofi a dilysu'r theori newid, gan sicrhau bod unrhyw ganlyniadau anrhagweledig neu anfwriadol yn cael eu nodi a bod modd eu hadlewyrchu yn yr adroddiad gwerthuso ehangach, yn ogystal ag asesu effaith.

3.22 Bydd dull casglu data o'r arolwg cyfranogwyr hefyd yn cynnig mecanwaith ar gyfer casglu newidynnau y gellir eu defnyddio mewn modd sy'n gyson ag arolygon cenedlaethol eraill a fframweithiau effaith. Er enghraifft, gellir defnyddio casglu data ar fodlonrwydd â bywyd er mwyn bod yn sail i werthuso llesiant[29] tra gall asesu hyder unigolion gefnogi dealltwriaeth ansoddol. Er y gall canlyniadau hunangofnodedig fod yn llai cadarn na defnyddio setiau data gweinyddol, eto mae'n rhoi'r modd i feincnodi yn erbyn effeithiau darpariaeth a modelu eraill trwy fetrigau

[29] Cwestiynau llesiant personol yr ONS

sefydledig. Defnyddiwyd y dull anarbrofol hwn ar gyfer amrywiaeth o asesiadau effaith pan fo cynnal astudiaethau gwrthffeithiol yn heriol.

**Model dadansoddi cost a budd Cymdeithasol yr Adran Gwaith a Phensiynau**

3.23 Defnyddiwyd fframwaith dadansoddi cost a budd cymdeithasol y DWP (SCBA) wrth lunio llu o werthusiadau cenedlaethol y DWP.[30] Datblygwyd y fframwaith yn 2010 ac mae'n cynnwys ystod o fetrigau a dulliau y gellir eu defnyddio i feintioli a phennu effaith ymyriadau sy'n targedu cyflogadwyedd a sgiliau. Fel yr awgryma'r teitl, cynlluniwyd y fframwaith i ymgorffori effeithiau cymdeithasol, yn ogystal ag effeithiau economaidd, i'w defnyddio mewn asesiadau effaith cost a budd.

3.24 Mae fframwaith SCBA yn ystyried yr effeithiau y gallai ymyrraeth cymorth eu cael ar y farchnad lafur, y gost i gyllid y Trysorlys (goblygiadau treth), effeithiau mewn marchnadoedd eilaidd a'r effeithiau lluosydd a phwysiadau lles y gellir eu cymhwyso i effeithiau wedi'u costio. Mae'r dull felly yn ganllaw sy'n galluogi aseswr i feintioli effaith newidynnau disgwyliedig o raglenni fel TSC+.

3.25 Manteision defnyddio'r dull hwn yw ei fod yn syml ac y gellir ei ddefnyddio gyda data arolwg cyfranogwyr a data monitro'r rhaglen yn hytrach na data gweinyddol, er mwyn helpu i bennu effaith ymyrraeth. Mae fframwaith SCBA eisoes wedi caniatáu ar gyfer priodoli yn yr asesiadau gan leihau'r angen am astudiaethau gwrthffeithiol.

3.26 Yr heriau gyda fframwaith SCBA yw efallai na fydd pob elfen yn berthnasol i raglen fel TSC+ ac mae gwerth ariannol neu gynhyrchu gwerth yn cynnwys ffigurau sy'n deillio o gyfartaleddau cenedlaethol a chyfrifwyr cyflym. Ymhellach, cyhoeddwyd yr SCBA yn 2010 ac mae'n tynnu ar ddata asesu o raglenni ac ymchwil a gyhoeddwyd cyn hynny. Gallai hyn wneud rhai o'r metrigau effaith yn llai priodol wrth gynnal yr asesiad effaith ar gyfer TSC+. Fodd bynnag, mae'r SCBA yn dal i gael ei ddefnyddio, gan gynnwys ar nifer o werthusiadau diweddar,[31] ac mae'n cynnig methodoleg strwythuredig a thrylwyr.

[30] Fframwaith Dadansoddi Cost a Budd Cymdeithasol yr Adran Gwaith a Phensiynau, Fujiwara, 2010; i gael enghreifftiau gwerthuso gweler Economic Evaluation of Fair Start Scotland, Alma Economics ar ran Llywodraeth yr Alban, 2022 a Sector Based Work Academies, DWP, 2016

[31] Gweler Economic Evaluation of Fair Start Scotland, Alma Economics ar ran Llywodraeth yr Alban, 2022

3.27 Yn olaf, pan fo elfennau ar goll o’r SCBA, megis prisio lles, nad oedd mor ddatblygedig yn 2010, yna cyn belled ag y gwneir addasiad gofalus, gellir cynnwys elfennau o’r fath yn yr asesiad o ffynonellau eraill. Felly gellir cynhyrchu matrics cyfansawdd o effaith gymdeithasol ac economaidd yn seiliedig ar SCBA DWP a’i addasu i brisiau cyfredol neu ddefnyddio ymchwil mwy diweddar yn ôl yr angen. Fel arall, gellid defnyddio modelau eraill sy’n ceisio cofnodi a gwerthfawrogi gwerth cymdeithasol (gweler er enghraifft, Loop, Social Value Engine, HACT neu Thrive).

# 4. Cynigion methodolegol

4.1 Isod, amlinellir nifer o gynigion methodolegol y gellid eu cyflawni i asesu effaith rhaglen TSC+.

4.2 Dyma rai o'r prif elfennau y bydd angen eu cynnwys yn yr asesiad effaith a'r fframwaith:

- **Cydnabod effeithiau ychwanegol Covid-19** ar bobl ifanc, gan gynnwys y rhai sy'n NEET, a rôl y rhaglen wrth liniaru unrhyw anfanteision y gallai hyn fod wedi'u hachosi. Mae tystiolaeth yn dechrau dod i'r amlwg o raglenni sydd wedi'u cynnal ac/neu eu gwerthuso ers pandemig Covid-19 gan gynnwys, er enghraifft gwerthusiad effaith Cymunedau am Waith a Cymunedau am Waith a Mwy a gwerthusiad effaith Kickstart, a oedd wedi rhoi cymorth i bobl ifanc 16 i 24 oed a oedd mewn perygl o ddiweithdra hirdymor, ond mae cwmpas ymchwil cynhwysfawr dros yr amserlen benodol hon yn dal i fod braidd yn gyfyngedig.
- **Ystyried lles a bodlonrwydd â bywyd**, nad ydynt wedi'u cynnwys yn y gwaith monitro ar y rhaglen gyfredol nac yn ei chanlyniadau ond a fydd yn bwysig ar gyfer casglu effeithiau cymdeithasol sy'n fuddion tebygol yn ogystal â dangosyddion economaidd anoddach. Bydd angen rhyw fath o feintoli a phrisio, fel yr amlinellir yn y Llyfr Gwyrdd atodol, yn ogystal â chynnwys agweddau ansoddol.[32]
- Mae **angen modelu pa mor gyffredin yw effeithiau cyfnewid** ar gyfer yr asesiad effaith gan fod TSC+ yn rhoi cymhelliad ariannol i gyfranogwyr (£60 yr wythnos i'r rhai sy'n ymgysylltu â'r rhaglen) sy'n fwy na'r £40 yr wythnos[33] o Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA) a gynigir i ddysgwyr prif ffrwd. Effeithiau cyfnewid yn yr achos hwn fyddai unigolion yn dewis rhoi'r gorau i addysg neu hyfforddiant 16 i 18 traddodiadol ac yn hytrach yn cofrestru ar gymorth o dan raglen TSC+. O ystyried y gwahaniaeth mewn incwm posibl y gall unigolyn ei gael trwy ddilyn hyfforddiant trwy TSC+ mae yna gymhelliant i gyfnewid

[32] Green Book Supplementary Guidance on Wellbeing, Trysorlys EF, 2021
[33] Sylwer bod hwn wedi codi o £30 yr wythnos yn 2024.

darpariaeth. Bydd angen rhoi cyfrif am senarios o’r fath yn yr asesiad effaith gan na ellir priodoli’r buddion i’r ymyrraeth gan y gallent fod wedi digwydd heb y cymorth ac, ymhellach, mae costau ychwanegol wedi’u hysgwyddo drwy ganiatáu’r cyfnewid.

- **Modelu nifer yr achosion o ddifuddiant** (deadweight) ymhlith cyfranogwyr TSC+ yn enwedig ymhlith y garfan o ddysgwyr sy’n cofrestru ar TSC+ ar ôl cwblhau Blwyddyn 11 (ym mis Gorffennaf bob blwyddyn). Mae proffil a theithiau’r garfan hon yn wahanol i gyfranogwyr eraill ar y rhaglen ac mae’r asesiad o ychwanegedd ymhlith y garfan hon yn fwy cymhleth a chynnil.

**Methodoleg lled-arbrofol**

4.3 Un dull sydd ar gael i bennu effaith rhaglen TSC+ fyddai defnyddio rhyw fath o ddull lled-arbrofol. Mae cynlluniau lled-arbrofol yn cynnwys nodi grŵp cymharu sydd mor debyg â phosibl i’r grŵp a gafodd gymorth, cyn iddynt gael cymorth (ar y waelodlin). Nodir nodweddion allweddol (neu newidynnau) ar gyfer y ddau grŵp sy’n dibynnu ar y cymorth a chaiff y rhain eu paru (mor agos â phosibl rhwng y ddau grŵp). Byddai’r newidynnau annibynnol a amlinellwyd yn adran 2 a oedd yn bodoli cyn i’r dysgu ddechrau (ar y waelodlin) yn amlwg yn y rhestr nodweddion ar gyfer paru.

4.4 Gan na sefydlwyd rhaglen TSC+ fel hap-dreial dan reolaeth[34] (ac mae heriau moesegol i ddulliau o’r fath gan y byddent yn ei gwneud yn ofynnol i gyfranogwyr cymwys ar hap beidio â chael cymorth i weithredu fel y grŵp rheoli) byddai angen cynllun ymchwil lled-arbrofol. Byddai hyn yn golygu creu grŵp rheoli o’r setiau data gweinyddol a amlinellwyd uchod. Mewn amgylchiadau delfrydol, gellid nodi’r cyfranogwyr a’r grŵp rheoli yn y data gweinyddol gan roi newidynnau data y gellid eu holrhain ar gyfer pob grŵp a galluogi gwneud cymariaethau.[35]

[34] I gael esboniad defnyddiol am hap-dreialon dan reolaeth, gweler Randomized Controlled Trials (RCTs) (unicef-irc.org).

[35] Defnyddiwyd dull tebyg ar gyfer y Gwerthusiad o’r Rhaglen Hyfforddeiaethau 2015-2019, Y Sedyfliad Dysgu a Gwaith a Wavehill ar ran Llywodraeth Cymru, 2019

**Nodi grŵp rheoli (grŵp cymharu)**

4.5 Er mwyn pennu effaith rhaglen TSC+ mae angen amcangyfrif yr effaith ychwanegol net trwy ryw fath o gymhariaeth grŵp rheoli. Bydd hyn yn cyfyngu ar ddylanwad ffactorau eraill a allai fod wedi effeithio ar y newidynnau dibynnol yn absenoldeb yr ymyrraeth (trwy ddiystyru unrhyw ddifuddiant sy'n gysylltiedig â'r ddarpariaeth).

4.6 Wrth ymchwilio i effaith ychwanegol net y dysgu a wnaed trwy TSC+, mae yna nifer o grwpiau y gellid eu hystyried yn addas fel grŵp cymharu neu reoli:

a) Unigolion sydd â nodweddion tebyg i rai'r grŵp a gafodd gymorth ond nad ydynt wedi dechrau ar ddarpariaeth cymorth a ariennir yn gyhoeddus o fewn amserlen yr astudiaeth, o bosibl o ddaearyddiaeth wahanol.

b) Unigolion sydd â nodweddion tebyg i rai'r grŵp a gafodd gymorth ond nad ydynt yn NEET ac felly'n anghymwys ar gyfer y rhaglen.

c) Unigolion a ymgysylltodd â rhaglen TSC+ ond a roddodd y gorau i'r cymorth.

**Opsiwn A**

4.7 Mae'n bosibl mai Opsiwn A, y gellir cyfeirio ato fel cymharydd 'polisïau eraill' ('policy off'), sy'n darparu'r grŵp rheoli mwyaf ei faint ac, felly, y siawns uchaf o baru yn ôl nodweddion. Gallai data o gronfa ddata LEO, banc data SAIL, yr LFS a mewnwelediad gan Labordy Data Cyflogaeth yr Adran Gwaith a Phensiynau gynnig y grŵp rheoli mwyaf addas a gellid eu hidlo i ddarparu paru o'r tu allan i Gymru megis rhanbarthau o Loegr sydd â sefyllfaoedd marchnad lafur tebyg.[36] Byddai paru fel arfer yn canolbwyntio ar yr unigolion hynny sydd â lefel cymhwyster sydd yr un fath â'r grŵp ymyrraeth (ar adeg ymgysylltu â rhaglen TSC+), yn ogystal â data demograffig a statws NEET.

---

[36] Gweler, er enghraifft: Hedges, S., Patrignani, P., a Conlon, G. (2018). 'Settling the counterfactual debate: Is there a preferable counterfactual when estimating the returns to vocational qualifications?', CVER Discussion Paper 013; London Economics (2022) Education and Skills Impact Measurement – report for the Enterprise and Skills Strategic Board.

4.8 Mae'r heriau o ran paru data â'r cronfeydd data hyn, yn enwedig yr elfennau NEET fel yr amlinellir yn adran 3 uchod, yn gyfyngiadau y gwyddys amdanynt mewn perthynas â'r dull hwn.

**Opsiwn B**

4.9 Byddai Opsiwn B yn golygu paru'r nodweddion allweddol a amlinellwyd uchod tra'n cydnabod gwahaniaeth allweddol mewn statws NEET rhwng y grŵp cyfatebol a'r grŵp cymharu. Un o brif heriau'r dull hwn yw deall y llu o ffactorau a allai fod wedi dylanwadu ar eu statws NEET a hefyd y gwahaniaeth cymharol yn nwyster y ddarpariaeth pan oeddent mewn rhyw fath o addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth o gymharu â natur y cymorth a gynigir fel rhan o Linyn Ymgysylltu (er enghraifft) rhaglen TSC+.

**Opsiwn C (Ymadawyr cynnar)**

4.10 Byddai Opsiwn C yn darparu grŵp cyfatebol sydd â'r un nodweddion a photensial â rhai'r grŵp a gafodd gymorth ond a oedd yn y pen draw wedi gadael y rhaglen yn fuan ar ôl iddynt gofrestru. Er y byddai'r paru yn addas iawn, mae'r ddarpariaeth gymorth o dan TSC+ yn cael ei harwain gan y dysgwr ac yn amrywio o ran dull, dwyster a hyd. Byddai angen sefydlu trothwy hyd y cymorth (naill ai yn yr amser a aeth heibio rhwng cofrestru ac ymadael, neu mewn perthynas â nifer yr oriau yn y ganolfan neu'r oriau mewn lleoliad), a gallai hyn fod braidd yn fympwyol. Ymhellach, gall hyd yn oed rhywfaint o ymyrraeth gan y partneriaid cyflawni ar gyfer unigolyn arwain at rywfaint o welliant neu ganlyniadau. At hynny, nododd ein dadansoddiad ar 'ymadawyr cynnar' fel rhan o'r gwerthusiad interim fod llawer o'r rhain o ganlyniad i sicrhau canlyniadau cadarnhaol, felly yn aml efallai gallai ddangos fod cyfranogwr yn nes at symud i ryw fath o addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth na'u cyfoedion TSC+.

4.11 Felly byddai angen casglu data canlyniadau o'r garfan hon fel rhan o unrhyw astudiaeth asesu effaith, gan greu heriau o ran casglu data. Yr hyn sy'n arbennig o anodd gyda grwpiau o'r fath yw'r ymgysylltu, o ystyried efallai mai dim ond ychydig o'r cymorth a gynigir drwy'r rhaglen yr oeddent wedi manteisio arno. Her

ychwanegol yw eglurder y data a gasglwyd ynghylch pam mae unigolion yn gadael y rhaglen yn gynnar.

4.12 Felly mae sefydlu grŵp rheoli o ymadawyr cynnar TSC+ yn esgor ar nifer o heriau a fyddai'n cyfyngu neu'n lleihau cwmpas yr opsiwn hwn.

**Crynodeb**

4.13 O'r tri opsiwn a gyflwynwyd, opsiwn A yw'r dull mwyaf ymarferol o nodi a chael gafael ar grŵp cymharu addas ar gyfer profi effaith ychwanegol net rhaglen TSC+.

4.14 Gallai fod modd hefyd, pan fo adnoddau a data yn caniatáu, i fodelu effaith trwy ddefnyddio opsiynau A ac C. Byddai hyn yn galluogi asesiad cymharol o'r effaith gan ddefnyddio'r ddau ddull ynghyd ag ymchwiliad trylwyr o'u cadernid a'u cyfyngiadau yng ngoleuni'r dystiolaeth a gasglwyd.

**Methodoleg paru**

4.15 Bydd dewis pa fethodoleg ar gyfer paru grŵp rheoli ar gyfer cyfranogwyr TSC+ yn dibynnu ar gwmpas y data sydd ar gael a maint y set ddata sydd ar gael. Mae rhai methodolegau paru yn gofyn am samplau mwy o faint er mwyn bod yn effeithiol. Cyflwynir manylion pob dull paru yn Atodiad A, a'r dull a ffefrir yw'r paru sgorau tueddiad (propensity score matching).

4.16 Mae amryw o gyfyngiadau i baru sgorau tueddiad. Mae'r prif bryder yn ymwneud â'r heriau sy'n gysylltiedig â chael digon o wybodaeth reoli gyson er mwyn paru. Yn ogystal, ni fyddai unrhyw fodelu effaith sy'n defnyddio'r dull hwn yn cynnwys canlyniadau i gyflogwyr, y trethdalwr na chontractwyr.

4.17 Fel yr amlinellwyd, mae TSC+ yn hynod amrywiol a hyblyg yn yr hyn a gynigia. Nid oes ymyrraeth nodweddiadol gan TSC+ i feincnodi effaith yn ei erbyn, gyda chyfranogwyr nid yn unig yn cael llinynnau cymorth gwahanol ond hefyd gwahanol ddulliau o fewn pob llinyn. Er mwyn goresgyn y mater hwn, mae lle i ystyried asesiad effaith mwy targedig ar bob math o ymyrraeth (megis profiad gwaith [er enghraifft, mae dadansoddiad o wybodaeth reoli TSC+ yn nodi bod 72% (1,989/2,745) o'r rhai a oedd wedi dechrau'r rhaglen a gafodd oriau mewn lleoliad gwaith wedi arwain at ganlyniad cadarnhaol, o gymharu â 55% (3,521/6,375) o'r

rhai nad oeddent], cwrs sgiliau, cymorth i oresgyn rhwystrau ac ati). Yn ogystal, dylid ystyried effeithiau ansoddol y cymorth nad oes modd eu codi o ddull cynllun lled-arbrofol sy'n pwyso ar ddata gweinyddol.

**Modelu meintiol**

4.18 Dull arall o bennu effaith fyddai prisio a mesur graddfa'r ystod o ganlyniadau y mae'r rhaglen yn esgor arnynt gan wneud hynny drwy ddefnyddio modelau a chyfrifwyr cyflym. Mae hyn yn gyson â chanllawiau Llyfr Gwyrdd Trysorlys EF[37] a byddai angen cymysgedd o wybodaeth reoli a chasglu data sylfaenol atodol i ddal y newidynnau gofynnol y gellir wedyn eu prisio. Un o fanteision y dull hwn yw ei fod yn rhan o ddyfarnu gwerth am arian, a hwnnw hefyd yn ddadansoddiad pwysig fel rhan o'r asesiad effaith. Mae hefyd yn caniatáu ar gyfer datblygu cyfansawdd ar gostau a buddion gan o bosibl nodi pa elfennau ar y cymorth sy'n arwain at y gwerth ychwanegol mwyaf.

4.19 Yr anfanteision yw y bydd yr asesiad yn dibynnu ar effeithiau a phriodoli hunanddatganedig, yn ogystal ag amcangyfrifon o ddifuddiant a cholledion (leakage) sy'n deillio o raglenni eraill. Gall y rhain orbwysleisio neu dan-bwysleisio'r effeithiau, yn enwedig y rhai sy'n llai diriaethol neu'n fwy hirdymor. Bydd rhagdybiaethau goddrychol, dewisiadau a gwerthoedd o'r meincnodau a'r data a gafwyd hefyd yn cael eu cynnwys yn yr asesiad effaith ar gyfer rhaglen TSC+.

4.20 Y man cychwyn ar gyfer gwneud model meintiol o TSC+ fydd adolygu a mireinio'r model rhesymeg neu'r theori newid ar gyfer y rhaglen. Mae hyn wedi'i wneud fel rhan o'r gwerthusiad ffurfiannol ond byddai angen ei adolygu cyn unrhyw asesiad effaith er mwyn sicrhau ei fod yn dal yn briodol a bod y tybiaethau cywir wedi'u cynnwys.

4.21 Bydd angen mapio buddion (gan ddefnyddio'r theori newid, gweler y meysydd cychwynnol a amlinellir isod) a bydd angen cynnwys effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol gweithgareddau TSC+ ar y cyfranogwyr, cyflogwyr, trethdalwyr a phartneriaid. Unwaith y bydd y prif feysydd canlyniadau a thybiaethau wedi'u nodi, a ddylai fapio ar draws y newidynnau dibynnol, mae angen fframwaith ar gyfer pennu

[37] The Green Book and supplementary guidance, Trysorlys EF, 2022

gwerth pob elfen, ynghyd â'r meini prawf a'r fethodoleg asesu. Mae angen ystyried effeithiau cadarnhaol a negyddol, megis arbedion cost yn ogystal â buddion perthnasol. Ar gyfer rhai newidynnau, bydd angen rhoi gwerth ariannol ar y buddion a gellir tynnu costau o werthusiadau neu ffynonellau eraill megis fframwaith SCBA yr Adran Gwaith a Phensiynau.

4.22 Drwy weithio drwy'r fframwaith gellir cyfrifo'r effeithiau'n gronnol ar gyfer y rhaglen.

4.23 Mae'r tabl isod yn rhoi dadansoddiad o rai o'r meysydd canlyniadau y mae rhaglen TSC+ yn debygol o'u cynhyrchu ac awgrymiadau ar gyfer lle mae meintioli'n bosibl gan roi ffigurau cyfatebol i ddangos yr effaith net.[38]

[38] Bydd angen diweddaru'r rhain pan gynhelir yr asesiad effaith oherwydd bydd ffigurau mwy diweddar ar gael.

**Tabl 4.1: Enghraifft matrics effaith cost a budd ar gyfer TSC+[39]**

| Newidyn Dibynnol | Maes canlyniad | Metrig | Ffynhonnell y data | Asesiad mesuradwy |
|---|---|---|---|---|
| Statws NEET | Arbed costau i'r trethdalwr o fod yn NEET | Nifer y cyfranogwyr nad ydynt bellach yn NEET | Gwybodaeth reoli | Awgryma ymchwil bod arbediad cost i'r trethdalwr o £79,149 y person nad ydynt bellach yn NEET.[40] |
| Statws Cyflogaeth/Prentisiaeth (rhan/llawn amser) | Budd i'r trethdalwr o gynnydd mewn refeniw treth | Nifer y cyfranogwyr wedi'u cyflogi/mewn prentisiaeth ar ôl 12 mis[41] | Gwybodaeth reoli / Arolwg | Refeniw treth o gyflog cyfartalog ar lefel cymhwyster fesul mis o gyflogaeth ychwanegol. |
| | Arbedion costau i drethdalwyr yn sgil llai o wariant ar iechyd pobl ddi-waith | Nifer y cyfranogwyr wedi'u cyflogi/mewn prentisiaeth ar ôl 12 mis | Gwybodaeth reoli / Arolwg | Awgryma ymchwil mai'r gost iechyd flynyddol sy'n gysylltiedig â bod yn ddi-waith yw £714.[42] |

[39] Mae'r ffigurau yn y tabl hwn wedi'u graddio o'u blynyddoedd sylfaen i brisiau 2022 (blwyddyn lansio JGW+).
[40] Estimating the life-time cost of NEET, Coles et al. University of York Department of Social Policy and Social Work and Department of Health Sciences, Gorffennaf 2010
[41] Awgrymwyd 12 mis i fod yn gyfnod amser i gyd-fynd â gwerthusiadau ac adroddiadau eraill y cyfeirir atynt yn y papur hwn. Dylai hyn ganiatáu i ddata gael ei gasglu'n effeithiol heb oedi rhy sylweddol, ond os caiff effeithiau tymor hwy eu blaenoriaethu, yna gellid ei ddiwygio i 2 flynedd neu ei fyrhau i 6 mis os yw casglu data yn heriol.
[42] Fframwaith Dadansoddi Cost a Budd Cymdeithasol yr Adran Gwaith a Phensiynau, Fujiwara, 2010

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Buddion cynhyrchiant economaidd | Nifer y cyfranogwyr wedi'u cyflogi/mewn prentisiaeth ar ôl 12 mis | Gwybodaeth reoli / Arolwg | Gellir tybio mai cyfanswm enillion yw gwerth cyflogaeth i gyflogwr.[43] |
| | Cost gweithio i'r unigolyn o ran teithio (gall hefyd gynnwys gofal plant os yw'n berthnasol) | Nifer y cyfranogwyr wedi'u cyflogi/mewn prentisiaeth ar ôl 12 mis | Gwybodaeth reoli / Arolwg | Mae ymchwil yn awgrymu mai cost gyfartalog teithio cysylltiedig â gwaith yw £976 y flwyddyn.[44] |
| Dechrau'r dysgu ar lefel uwch | Lefelau cymwysterau gwell yn arwain at fuddion economaidd o wahaniaeth posibl mewn enillion oes i unigolyn | Data enillion ar ôl ymyrraeth gyda rhyw fath o briodoli ac effaith dyfalbarhad | Gwybodaeth reoli / Arolwg | Cyfanswm y ffigur wedi'i feintioli o'r holl gyfranogwyr neu gyfradd gyfartalog cyflog yn ôl lefel cymhwyster uchaf wedi'i raddio a'i ddatchwyddo.[45] |
| Iechyd a lles | Buddion ansoddol yn ogystal ag arbedion costau i'r trethdalwr o lai o wariant ar iechyd | Cyfran y cyfranogwyr yn adrodd am welliannau iechyd meddwl/corfforol | Arolwg | Yn dibynnu ar amodau a ddatganwyd cyn ymgysylltu, gellir defnyddio ffigurau Blynyddoedd Bywyd wedi'u Haddasu yn ôl |

[43] Mae hyn yn rhagdybio theori marchnad berffaith bod yr unigolyn cyflogedig olaf mewn cwmni yn hafal i un uned allbwn ychwanegol. Sylwer: bydd buddion hyn i'r economi yn cael eu gwrthbwyso gan y costau negyddol i'r cyflogwr wrth adolygu dosbarthiad cost a budd (gweler tabl 4.1 uchod).
[44] Yn dilyn Covid-19 a'r cynnydd mewn gweithio o gartref, bydd angen ailedrych ar hyn ar adeg yr asesiad effaith. Mae'n debygol na fydd gwybodaeth gyfredol o fframwaith Dadansoddi Cost a Budd Cymdeithasol yr Adran Gwaith a Phensiynau, (Fujiwara, 2010) yn berthnasol mwyach.
[45] Lefel 1= £9.63 yr awr, Lefel 2= £11.88, Lefel 3= £17.45, Lefel 4= £24.85. Gofynnwyd am ddata ar enillion yn ôl lefel yng Nghymru, ONS, 2014

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Ansawdd (QALY) neu flynyddoedd bywyd wedi'u haddasu yn ôl anabledd (DALY).[46] |
| | Manteision ansoddol yn ogystal ag arbedion costau i'r trethdalwr yn sgil llai o wariant ar iechyd | Cyfran y cyfranogwyr yn adrodd am lai o unigrwydd | Arolwg | Arbediad cost o £9,100 y flwyddyn ar gyfer newid o unigrwydd cymedrol i ysgafn.[47] |
| Trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol | Arbed costau i'r trethdalwr ar gyfer ffioedd cyfreithiol a chostau atgyweirio | Nifer y cyfranogwyr nad ydynt bellach yn NEET | Gwybodaeth reoli | Mae data costau troseddau ar gael gan y Swyddfa Gartref.[48] |
| Bodlonrwydd â bywyd | Buddion ansoddol ac ariannol (sy'n gymysg eu dosbarthiad | Gwelliant cyfartalog yn y sgôr bodlonrwydd â bywyd | Arolwg | Cynnydd o 1 pwynt ar raddfa 0-10 WELLBY = £14,673.[49] |

46 Gweler y rhes isod ar fodlonrwydd â bywyd er mwyn osgoi cyfrif ddwywaith.
47 Loneliness Monetisation report, Peytrignet et al ar ran yr Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, 2020. Mae angen dealltwriaeth ychwanegol ar oblygiadau pandemig Covid-19, a chymorth iechyd meddwl i gefnogi'r amcangyfrif hwn a gynhaliwyd cyn y pandemig.
48 The Economic and Social Costs of Crime: Second Edition, Heeks et al ar ran y Swyddfa Gartref, 2018
49 Mae angen rhoi ystyriaeth ofalus i gyfrif dwbl wrth asesu bodlonrwydd â bywyd wrth ddefnyddio'r graddfeydd Llesiant o ystyried y canlyniadau eraill y gallai'r cymorth fod wedi'u creu. Mae sgoriau bodlonrwydd â bywyd yn fesuriad o ddyfarniadau ansoddol yn seiliedig ar ddata arolwg ar gyfrifo gwerth canlyniadau bywyd yn seiliedig ar economeg iechyd a chan nad oes unrhyw drafodion ariannol yn digwydd efallai na fyddant yn cael eu hystyried yn addas ar gyfer y rhaglen hon. Gellir gwahanu newidiadau ar gyfer iechyd meddwl a chorfforol, unigrwydd a ffactorau cyflogaeth oddi wrth y sgoriau WELLBY cyffredinol, gweler Green Book Supplementary Guidance on Wellbeing, Trysorlys EF, 2021

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | rhwng y gymdeithas a'r unigolion) | yn ôl cyfanswm y cyfranogwyr | | |
| Hyder ac uchelgais | Arbedion cost i'r trethdalwr yn sgil gostyngiad yn anghenion cymorth y cyfranogwr yn y dyfodol | Nifer y cyfranogwyr yn adrodd llai o rwystrau i gyflogaeth | Arolwg | Awgryma tystiolaeth fod cost ymgysylltu â'r Ganolfan Byd Gwaith fesul unigolyn yn £345. |
| | Potensial cyflogaeth yn y dyfodol i gyfranogwyr yn esgor ar ostyngiad mewn cost a budd yn y dyfodol | Nifer y cyfranogwyr sy'n cwblhau neu'n cymryd rhan mewn cymorth profiad gwaith | Gwybodaeth reoli | Awgryma'r dystiolaeth fod -49 yn llai o ddiwrnodau o hawlio budd-dal ar gyfartaledd ar ôl tair blynedd (cyfateb i £3,293 mewn JSA)[50] |

[50] Work Experience: A quantitative impact assessment, Adran Gwaith a Phensiynau (DWP), Mawrth 2016

## 5. Asesu gwerth am arian

5.1 Fel yr awgrymwyd uchod, bydd y modelu meintiol ar effeithiau rhaglen TSC+ wedi gwneud llawer o'r gwaith sydd ei angen i gwblhau dadansoddiad cost a budd cymdeithasol. Bydd hwn hefyd yn rhan o asesu gwerth am arian rhaglen TSC+, er y defnyddir metrigau eraill gan gynnwys asesiadau ansoddol a strategol.

5.2 Mae pedwar cam sylfaenol i ddadansoddi cost a budd cymdeithasol (SCBA) ar gyfer rhaglen TSC+ sy'n parhau o'r modelu meintiol uchod:

1. Mesur costau'r ymyrraeth, gan ddefnyddio gwybodaeth rheoli berthnasol y rhaglen.
2. Nodi amseriad a dosbarthiad y costau a'r buddion, a'u disgowntio i'w gwerthoedd presennol. Mae hyn yn golygu addasu cost a budd y dyfodol i adlewyrchu eu gwerth presennol, gan ddefnyddio cyfradd ddisgownt briodol, ac uwchraddio unrhyw gost neu fudd a ddigwyddodd yn y gorffennol (gan gynnwys cyfrifwyr cyflym o astudiaethau eraill). Bydd mapio dosbarthiad y costau a'r buddion yn gofyn am nodi pwy sy'n ysgwyddo'r costau a phwy sy'n cael y buddion, a sut mae'r rhain yn cael eu crynhoi ar draws grwpiau gwahanol (gweler y tabl enghreifftiol isod).[51]
3. Cyfrifo gwerth presennol net (NPV) a chymhareb cost a budd (BCR) yr ymyrraeth. Yr NPV yw'r gwahaniaeth rhwng gwerth presennol y buddion a gwerth presennol y costau. Y BCR yw'r gymhareb rhwng gwerth presennol y buddion a gwerth presennol y costau. Mae'r ddau fesur yn nodi a yw'r ymyrraeth yn economaidd effeithlon, h.y., a yw'r buddion yn drech na'r costau. Mae NPV positif a BCR sy'n fwy nag un yn awgrymu bod yr ymyrraeth yn effeithlon ac yn werth ei wneud.
4. Cyflwyno a dehongli'r canlyniadau a chynnal dadansoddiad sensitifrwydd a ddylai gynnwys profi sut mae'r canlyniadau yn newid wrth addasu

[51] Mae angen i lwfans mewn unrhyw ddadansoddiad cost a budd hefyd wrthbwyso'r gost cyfle y byddai unigolyn nad oedd yn cael cymorth JGW+ yn ei chael o ran gwerth EMA (£30).

paramedrau allweddol. Mae hyn yn helpu i asesu cadernid a dibynadwyedd y dadansoddi ar y costau a buddion cymdeithasol (SCBA).

5.3 Isod mae tabl enghreifftiol o werthusiad y rhaglen Profiad Gwaith sy'n dangos sut y gellir cyfrifo dosbarthiad cost a budd ar draws gwahanol grwpiau.[52]

**Tabl 5.1 Enghraifft o ddosbarthiad cost a budd**

| | Safbwynt | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Effaith profiad gwaith** | **Cyfranogwyr** | **Cyflogwyr** | **Trysorlys** | **Cymdeithas** |
| Cynnydd mewn allbwn | 0 | + | 0 | + |
| Cynnydd mewn cyflogau | + | - | 0 | 0 |
| Costau'r rhaglen | 0 | 0 | - | - |
| Gostyngiad mewn costau gweithredu | 0 | 0 | + | + |
| Gostyngiad mewn taliadau budd-dal | - | 0 | + | 0 |
| Cynnydd mewn trethi | - | - | + | 0 |
| Cynnydd mewn costau teithio a gofal plant | - | 0 | 0 | - |
| Gostyngiad mewn costau gofal iechyd | 0 | 0 | + | + |
| Ailddosbarthu costau a buddion | + | 0 | 0 | + |
| Cost gymdeithasol cyllid y Trysorlys | 0 | 0 | 0 | - |

Allwedd: '+' yn dangos budd net; '-' yn dangos cost net; '0' yn dangos dim cost na budd.

### Costau

5.4 Mae cynnal rhaglen TSC+ yn golygu costau i wahanol randdeiliaid ac mewn amrywiaeth o ffyrdd.

### Contractwyr

5.5 Mae contractwyr yn cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru i ddarparu gwasanaethau cymorth TSC+. Mae'r contractwyr hyn yn mynd i gostau y gellir eu hadennill o Lywodraeth Cymru wrth hyrwyddo'r rhaglen, wrth ymgysylltu â chyfranogwyr a'u cofrestru ac wrth ddarparu'r cymorth i gyfranogwyr. Ymhellach, ceir costau gweinyddol amrywiol sy'n gysylltiedig â rheoli a monitro'r broses o gynnal rhaglenni.

[52] Work Experience: A quantitative impact assessment, Adran Gwaith a Phensiynau, Mawrth 2016

5.6 Mae costau blynyddol ledled y rhaglen sy'n gysylltiedig â rhedeg TSC+ ar gael fel rhan o werthusiad ffurfiannol y rhaglen. Mae'r lefel hon o wybodaeth yn ddigonol ar gyfer costau modelu fesul cyfranogwr ar lefel rhaglen. Pe bai'n ddymunol, gallai contractwr fodelu costau fesul cyfranogwr, fodd bynnag byddai gofyn cael gwybodaeth a allai fod yn fasnachol sensitif am gostau fesul contractwr i fod yn sail i'r gwaith modelu hwnnw.

**Llywodraeth Cymru**

5.7 Yn ogystal ag ariannu gweithgarwch contractwyr, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gwneud taliadau (trwy'r contractwyr) i gyfranogwyr rhaglen TSC+, sef talu £60 yr wythnos ac yn rhoi cymhorthdal o 50% o'r isafswm cyflog cenedlaethol i'r rhai ar chwe mis cyntaf eu cyflogaeth. Mae gwariant hefyd gan Lywodraeth Cymru o ran darparu rheolaeth, gweinyddiaeth, a llywodraethu cyffredinol ar raglen TSC+.

**Costau cyflogwyr**

5.8 Bydd costau cyflogwyr yn cael eu hysgwyddo gan y busnesau sy'n darparu profiad gwaith a chymorth arall i gyfranogwyr o dan raglen TSC+. Fodd bynnag, bydd canfod maint y costau yr eir iddynt gan gyflogwyr yn heriol ac ar raddfa is. Byddai angen ystyriaeth bellach i'w cynnwys o fewn SCBA a byddai'n cael ei lywio gan nifer a maint ymgysylltiad cyflogwyr ar y rhaglen.[53]

**Fframwaith costau**

5.9 Yn ddelfrydol, rhannu costau rhaglen fel TSC+ i feysydd sy'n gysylltiedig ag ymyriadau fyddai'n fwyaf effeithiol ar gyfer llunio dadansoddiad cost a budd. Byddai hyn yn caniatáu ar gyfer profi manylach ar ddarpariaeth y rhaglen. Fodd bynnag, o ystyried bod natur y cymorth mor bwrpasol ac amrywiol, gall segmentu costau fesul ymyrraeth fod yn fwy heriol, a chan fod pob cyfranogwr yn gallu symud rhwng llinynnau'r rhaglen, ni fyddai'n berthnasol i ganlyniadau penodol.

5.10 Gan fod contractwyr yn cael eu talu ar sail oriau cyfranogwr, dylai fod yn bosibl dadansoddi costau fesul oriau dysgu yn y ganolfan neu oriau dysgu seiliedig ar

---

[53] Dim ond un y cant o'r rhai sydd wedi dechrau ar raglen TSC+ sydd wedi bod ar y Llinyn Cyflogaeth (lle mae angen ymgysylltu â chyflogwyr) tra bod 33% wedi dechrau ar y Llinyn Datblygu lle mae llwybrau gwaith/lleoliadau yn fwy cyffredin na'r Llinyn Ymgysylltu, y mae'r rhan fwyaf o'r cyfranogwyr wedi cofrestru arno.

waith ar gyfer pob unigolyn. Byddai hyn yn darparu fframwaith cost manwl y gellid cael cyfartaledd neu gyfansymiau ohono, yn ogystal â'i ddadansoddi yn erbyn newidynnau eraill yn y wybodaeth reoli. Dylid nodi serch hynny nad yw cost yr awr yn nodi ansawdd neu briodoldeb yr anghenion cymorth, ac y gallai gymryd sawl ymyrraeth wahanol i gyrraedd y canlyniad dymunol ar gyfer pob cyfranogwr.

5.11 Er y gallai fod rhai dadansoddiadau ar gael megis demograffeg cyfranogwyr ar gyfer asesu costau a chymharu â buddion, yn realistig yr hyn fydd yn fwyaf addas fydd swm o'r holl gostau ar draws y rhaglen. Er y gallai fod yn bosibl rhannu a dadansoddi rhywfaint yn ôl contractwr, gallai hyn symleiddio ormod ar y cymorth y maent wedi'i ddarparu.

**Buddion**

**Costau cyfranogwyr**

5.12 O ystyried natur ymyriadau a grwpiau targed TSC+ mae'n debygol mai ychydig o gostau fydd i'r cyfranogwyr ac felly bydd y raddfa'n fach. Ymhellach, mae darpariaeth o fewn y rhaglen i dalu costau sy'n gysylltiedig â theithio er mwyn mynd i gael cymorth TSC+, costau llety hanfodol a darpariaeth gofal plant/gofal ar adeg ymgysylltu â chymorth ynghyd â chost un pryd y dydd wrth fynychu cymorth. Gellid modelu maint a chyffredinolrwydd posibl y costau hyn trwy dystiolaeth a gasglwyd trwy arolwg i gyfranogwyr neu'r gyfran sy'n datgan eu bod yn rhoi gofal sylfaenol yn y data gwybodaeth reoli, er efallai na fydd y rhain yn cael effaith sylweddol ar y costau cyffredinol.

**Buddion economaidd**

5.13 Bydd y brif dystiolaeth ar gyfer modelu buddion economaidd yn deillio o'r gyflogaeth neu'r cymwysterau a gaiff cyfranogwyr rhaglen TSC+ (sy'n arwain at fuddion incwm yn syth neu yn y dyfodol). Mae'n debygol y byddai enillion cynhyrchiant hefyd i gyflogwyr, ond bydd modelu hyn yn cael ei gydbwyso gan mwyaf gan gostau cyflogau i gyflogwyr (ynghyd â chyfraniadau yswiriant gwladol) a chymhorthdal cyflogau Llywodraeth Cymru.

**Buddion i drethdalwyr**

5.14 Cyfeirir at y rhain hefyd fel buddion i'r Trysorlys, ac mae llawer o'r buddion a amlinellir yn Nhabl 4.1 uchod yn arbedion cost i'r trethdalwr. Mae'r rhain yn cynnwys costau taliadau budd-daliadau i unigolion sy'n NEET (a allai fod yn ddi-waith yn y dyfodol megis Credyd Cynhwysol). Mae arbedion eraill yn cynnwys costau gofal iechyd o ostyngiadau posibl mewn canlyniadau iechyd negyddol o fod allan o addysg, cyflogaeth a hyfforddiant. Gall gostyngiadau mewn troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig â bod yn NEET hefyd leihau costau i'r Trysorlys. Yn olaf, pan fo unigolion yn fwy tebygol o gael cyflogaeth yn y dyfodol, bydd hyn yn lleihau costau sy'n gysylltiedig ag ymyriadau cymorth cyflogadwyedd yn y dyfodol.

5.15 Pan fo unigolyn a gefnogir gan y rhaglen wedi cael cyflogaeth ac yn cael ei dalu uwchlaw'r trothwy di-dreth, mae refeniw treth uwch hefyd sy'n mynd i'r Trysorlys.

**Buddion lles**

5.16 Bydd gwelliannau lles ac mewn bodlonrwydd â bywyd yn arwain at werth cyfwerth â chost i unigolyn. Mae tystiolaeth i awgrymu bod dysgu oedolion yn arwain at welliannau mewn iechyd yn ogystal â gwell perthnasoedd cymdeithasol.[54] Mae ymchwil diweddar yn rhoi gwerth ariannol ar newidiadau mewn bodlonrwydd â bywyd[55] drwy brisio nwyddau neu wasanaethau lle mae gwerth yn cael ei amcangyfrif fel y swm o arian y byddai ei angen i gyflawni'r un cynnydd neu golled mewn bodlonrwydd â bywyd ag y mae'r nwydd neu'r gwasanaeth yn ei gynhyrchu.[56] Rhoddir y gwerth ariannol ar hyn drwy gyfrifo gwerth ariannol cynnydd mewn llesiant dros flwyddyn unigol (cyfeirir ato fel WELLBY). Canfu'r ymchwil werth canolog o £13,000 (prisiau 2019) fesul un pwynt newid mewn bodlonrwydd â bywyd y flwyddyn ar raddfa rhwng 0 a 10.

---

[54] Fujiwara, D. (2012) Valuing the Impact of Adult Learning – an analysis of the effect of adult learning on different domains in life, National Institute of Adult Continuing Education.
[55] Trysorlys EF a Thasglu Effeithiau Cymdeithasol (2021) Wellbeing discussion paper: monetization of life satisfaction effect sizes – a review of approaches and proposed approach.
[56] What Works Centre for Wellbeing (2017) A guide to wellbeing economic evaluation, What Works Centre for Wellbeing.

5.17 Er hynny, dylid nodi fod adolygiad What Works Wellbeing (2017)[57] ar hyfforddiant ar lesiant wedi canfod canlyniadau anghyson. Ymddengys bod arddull cynnal yr hyfforddiant, er enghraifft, yn effeithio ar ganlyniadau llesiant, gyda darpariaeth ar-lein yn llai tebygol o effeithio ar les oni bai ei fod yn ymgorffori elfen gymdeithasol yn y broses ddysgu ochr yn ochr â darpariaeth ar-lein. Gallai hyn fod yn arbennig o berthnasol i TSC+ o ystyried ei gynnal yn ystod pandemig Covid-19 ac effeithiau'r pandemig a'r cysylltiad y sonnir amdano uchod ar iechyd meddwl ac unigrwydd pobl ifanc. Ymhellach, mae ymchwil yn dangos gwahaniaeth rhwng y rhywiau (yn dibynnu ar oedran) sy'n gysylltiedig â bodlonrwydd â bywyd ynghyd â nifer o'r newidynnau annibynnol eraill a nodir yn adran 2. Bydd angen i unrhyw fodelu buddion llesiant fedru rheoli ar gyfer y newidynnau annibynnol hyn lle bo hynny'n ymarferol bosibl.

5.18 Fel yr awgrymir yn nhabl 4.1 uchod, dull pragmataidd o gofnodi'r budd hwn fyddai drwy arolwg i gyfranogwyr er mwyn archwilio dylanwad y cymorth ar hyder a hunan-barch. Gallai'r broses gofrestru ac unrhyw adborth gan gyfranogwyr gael eu cynnwys yn y broses o gasglu data gwybodaeth reoli yn y dyfodol er mwyn cynorthwyo â'r data sydd ar gael am fodlonrwydd â bywyd ac asesu newid.

[57] What Works Centre for Wellbeing (2017) *What types of wellbeing training are effective in different sectors?* Learning at work and wellbeing briefing.

# 6. Crynodeb o Ganfyddiadau ac Argymhellion

### Fframwaith effaith

6.1 Mae'r fframwaith effaith yn nodi cyfres o newidynnau pwysig ar gyfer dadansoddi effaith TSC+. Ar gyfer sawl dangosydd, fodd bynnag, mae'r gallu i gysylltu ffynonellau data sy'n cynnwys newidynnau angenrheidiol yn cyfyngu ar y gallu i gynnal rhai elfennau o'r asesiad effaith. Dylid cynnal adolygiad o ffynonellau data gweinyddol a chael caniatâd cysylltu ar adeg cwblhau'r fframwaith effaith er mwyn archwilio beth sy'n bosibl.

**Argymhelliad 1**

Pan gynhelir yr asesiad effaith, dylid cynnal adolygiad o'r ffynonellau data a amlinellir yn adran 3 o'r papur hwn i benderfynu beth sy'n bosibl gyda'r setiau data gweinyddol sydd ar gael, yn enwedig mewn perthynas â chysylltu data ar draws setiau data (bydd cynnwys data NEET yn hanfodol er mwyn defnyddio'r data hwn i lunio gwrthffeithiol cadarn).

6.2 Mae faint o wybodaeth reoli a gesglir hefyd yn cyfyngu ar y fframwaith effaith gan ei fod yn gorfod casglu data canlyniadau allweddol trwy arolygon. Er bod hyn yn bosibl, byddai ansawdd unrhyw asesiad o effaith yn cael ei gryfhau pe ceid rhagor o wybodaeth am ganlyniadau.

**Argymhelliad 2**

Dylid diweddaru gwybodaeth reoli i gynnwys data canlyniadau allweddol:

- Y gyflogaeth a gaiff cyfranogwyr a manylion y sector busnes (cod SIC), oriau a weithiwyd, enillion/cyflog, dyddiad dechrau (a dyddiad gorffen) a chyfeiriad neu ddaearyddiaeth.
- Dylid casglu gwybodaeth am fudd-daliadau gwaelodlin sy'n cael eu talu i gyfranogwyr er mwyn rhoi modd prisio hyn yn y dadansoddiad.
- Ar gyfer llinynnau profiad gwaith byddai'n ddefnyddiol nodi rhif cofrestru'r cwmni, y sector, nifer y gweithwyr cyflogedig a daearyddiaeth ynghyd â manylion yr

oriau o brofiad gwaith a wnaed, er mwyn gallu modelu effeithiau'r gweithgaredd hwn.

- Pan gynigir cymorthdaliadau cyflog i gefnogi cyflogaeth, mae angen ystyried gwerth y cymhorthdal hwn yn y modelu effaith, ynghyd â maint cyflogwyr a'u busnes, eu sector a'u daearyddiaeth.

6.3 Mae o leiaf ddau grŵp arall o randdeiliaid yn debygol o elwa ar raglen TSC+:

- **Cyflogwyr** trwy ymwneud â chyfranogwyr ar brofiad gwaith ac fel gweithwyr cyflogedig.
- **Contractwyr** trwy ddefnyddio adnoddau i ddatblygu dulliau a phrofiad.

6.4 I'r ddau grŵp, bydd mesur yr effaith arnynt yn heriol a byddai'n well cael mewnwelediad trwy ymchwil ansoddol.

6.5 O ystyried yr amrywiaeth ym mhrofiad y cyfranogwyr a natur y cymorth o dan TSC+, dylai fod pwyslais ar gynnwys ymchwil ansoddol i gyfranogwyr yn ogystal ag effeithiau meintiol.

**Argymhelliad 3**

Wrth fesur a meintioli effaith y rhaglen, dylid canolbwyntio ar gyfranogwyr a dylid ategu hwn gan ymchwil ansoddol i archwilio'r ystod lawn o effeithiau a gafwyd, gan gynnwys ar elfennau fel iechyd meddwl a lles, yn enwedig yn sgil pandemig Covid-19.

**Argymhelliad 4**

Dylai asesiadau effaith ar grwpiau rhanddeiliaid eraill megis cyflogwyr a chontractwyr ganolbwyntio ar asesiadau ansoddol.

**Casglu tystiolaeth ar gyfer y fframwaith effaith**

6.6 Mae nifer o ffynonellau data eilaidd (yn ogystal â'r wybodaeth reoli a gasglwyd ar gyfer cyfranogwyr TSC+) wedi'u nodi i fod yn llwybrau posibl i fesur yr effaith ar y rhai sy'n cael cymorth ac ar gyfer nodi grŵp cymharu addas. Byddai cael gafael ar setiau data gweinyddol gan gynnwys drwy LEO, banc data SAIL, yr LFS a'r mewnwelediad sydd ar gael gan y Labordy Data Cyflogaeth yn gallu darparu

gwybodaeth addas, er y byddai angen eu hategu â mewnwelediad cysylltiedig o LLWR ac NCCIS neu fetrigau ehangach ar gyfer newidynnau dibynnol eraill.

6.7 Mae LEO yn set ddata arbennig o gadarn ond mae cyfyngiadau ar y gallu i gysylltu data a allai gyfyngu ar y defnydd a wneir o unrhyw asesiad o effaith TSC+. Gellid datblygu effeithiau hirdymor yn ogystal â gwrthffeithiol gan ddefnyddio mesurau eraill fel dirprwyon ar gyfer statws NEET, er y gallai'r rhain gael effaith mawr ar yr asesiad. Ymhellach, mae oedi sylweddol ar set ddata LEO ac mae data cymaradwy ar gyfer 2022-23 yn debygol o ddod ar gael yn ddiweddarach eleni.

6.8 Mae potensial gan fanc data SAIL, os gellid cwblhau digon o gysylltiadau rhwng cronfeydd data, i gynnig rhai mewnwelediadau defnyddiol i ganlyniadau TSC+. Yr her y bydd angen ei harchwilio yw a fydd hi'n bosibl trosglwyddo'r cyfranogwyr yn TSC+ i'r holl setiau data hyn a chael cyfatebiaeth gref. Er eu bod yn gynhwysfawr mewn meysydd fel iechyd a throseddu, mae gan y newidynnau sydd wedi'u cynnwys ym manc data SAIL lai o setiau data i'w defnyddio o ran cyflogaeth ac, fel yn achos LEO, byddai angen cysylltu data ar NEET (mae llai o allu i greu procsi â'r data sydd ar gael yn SAIL). Gall hyn gyfyngu ar yr asesiad effaith a pheidio â phennu'n llawn yr ystod lawn o ganlyniadau ac effeithiau y mae'r rhaglen yn debygol o esgor arnynt.

6.9 Byddai'r LFS yn cynnig llwybr amgen ar gyfer cael grŵp cymharu. Gan mai arolwg ydyw, mae ganddo faint sampl llai na LEO (sy'n casglu gwybodaeth am bawb sy'n cymryd rhan mewn dysgu ôl-16) ac mae risg y bydd y paru yn effeithio ar faint y grŵp cymharu. Mae hyn yn arbennig o berthnasol o ystyried oedran y cyfranogwyr yn TSC+ ac ymatebwyr yr LFS, gan y byddai cyfuno â statws NEET (a fyddai hefyd yn gorfod cael ei baru o'r NCCIS oni bai y gellid eto ffurfio procsi) yn cyfyngu ar faint y grŵp cymharol ac felly'r potensial o baru agos. Bydd sampl yr LFS, cyflwyno'r arolygon fesul cam a'r heriau diweddar gyda chyfraddau ymateb (a'r oedi cysylltiedig â gweithredu'r TLFS hyd at 2026) hefyd yn golygu mai dim ond grŵp gwrthffeithiol y gellir ei greu yn realistig yn hytrach na defnyddio'r set ddata weinyddol i olrhain effeithiau'r grŵp ymyrraeth dros amser. Yn ogystal, yn yr un modd ag LEO, ni fyddai'r holl newidynnau canlyniadau y byddai'n ddefnyddiol eu hystyried i asesu effaith TSC+ ar gael a gallai hynny gyfyngu ar gwmpas y

dadansoddiad ar ganlyniadau sy'n seiliedig ar gyflogaeth. Fodd bynnag, mae'r cyfnod oedi llawer yn fyrrach nag un LEO (tua chwe mis fel arfer).

6.10 Mae'r Labordy Data Cyflogaeth yn gallu cael gafael ar setiau data allweddol a fyddai'n rhoi cyfleoedd asesu effaith hydredol ar gyfer cyfranogwyr TSC+ a grwpiau cymharu addas ar gyfer dangos effeithiau net. Gan fod y gwasanaeth yn rhad ac am ddim ac yn cael ei ddarparu gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, awgrymir y byddai hwn yn opsiwn da i ddangos rhai o'r effeithiau ar y newidynnau dibynnol a ddisgwylir gan ymyrraeth TSC+. Byddai angen ystyried y cyfnod oedi sydd ynghlwm â rhywfaint o'r data (yn enwedig LEO) a'r posibilrwydd o oedi yn nhîm yr Adran Gwaith a Phensiynau wrth ddarparu'r wybodaeth, ynghyd â'r gofyniad bod modd rhannu data, a rhaid cyhoeddi canlyniadau. Byddai angen ystyried newidynnau canlyniadau eraill ar wahân, er y byddai defnyddio'r Labordy Data Cyflogaeth yn fan cychwyn da ar gyfer asesu effaith rhaglen TSC+.

**Argymhelliad 5**

Dylid cysylltu â'r Labordy Data Cyflogaeth cyn unrhyw asesiad effaith i gadarnhau y gallant gynnal dadansoddiad o ddata TSC+ a rhannu'r wybodaeth ofynnol (cyn belled â bod hyn yn bodloni gofynion Llywodraeth Cymru) er mwyn iddi roi cipolwg defnyddiol ar effeithiau net y rhaglen.

**Argymhelliad 6**

Dylid sicrhau bod y gwerthusiad effaith yn cael amserlen ddigonol i gofnodi'r wybodaeth angenrheidiol gyda'r amrywiol gronfeydd data (y Labordy Data Cyflogaeth, SAIL ac/neu LEO) er mwyn galluogi eu defnyddio'n effeithiol yn yr asesiad. Ar hyn o bryd mae'r amseroedd ar gyfer defnyddio'r setiau data hyn tua 6-8 mis felly byddai angen comisiwn o 12 mis o leiaf.

**Argymhelliad 7**

Cyn bwrw ati i asesu effaith TSC+, dylid cysylltu data o fanc data SAIL, ynghyd ag adolygiad o'r sefyllfa ddiweddaraf o ran cysylltu setiau data eraill â LEO, er mwyn ymchwilio i weld a yw'r elfennau yn ymarferol i gefnogi'r asesiad effaith. Os nac ydynt, o ystyried yr heriau presennol, awgrymir na fydd setiau data gweinyddol yn darparu data priodol i brofi effeithiau nac yn ffurfio grŵp cymharu ar gyfer TSC+.

6.11 Mae cyfyngiadau presennol setiau data'r wybodaeth reoli a gweinyddol yn dangos mai'r llwybr mwyaf priodol i gasglu data effaith ar gyfer cyfranogwyr ar TSC+ fydd trwy arolwg i gyfranogwyr a gynhelir tua 6 i 12 mis ar ôl cwblhau'r cymorth. Mae'r gwerthusiad ffurfiannol wedi treialu'r dull hwn ac roedd cyfraddau ymateb yn gryf ac yn rhesymol gynrychioliadol o nifer y cyfranogwyr. Bydd amseriad y gwaith maes mewn perthynas â chofrestriadau cyfranogwyr hefyd yn bwysig o gofio fod y proffiliau cyfranogwyr yn newid, yn enwedig o ran y rheiny sydd wedi cofrestru yn ystod misoedd yr haf.

6.12 Gellir ategu gwaith maes gan unrhyw ddata sydd ar gael gan y Labordy Data Cyflogaeth. Bydd mabwysiadu'r dull hwn yn galluogi teilwra cwestiynau arolwg i oresgyn y diffygion presennol yn y wybodaeth reoli a gesglir a gellir ei ddefnyddio mewn ymarfer modelu effaith feintiol.

**Argymhelliad 8**

Dylid defnyddio arolwg cadarn i gyfranogwyr gyda chyfranogwyr sydd wedi cofrestru ledled cyfran fawr o'r flwyddyn galendr, a dylai hwn fod y brif ffynhonnell dystiolaeth ar gyfer y grŵp ymyrraeth, wedi'i ategu gan ddadansoddiad data gweinyddol gan y Labordy Data Cyflogaeth.

6.13 Ceir arwyddion o effeithiau lles yn sgil cael cymorth, meithrin hyder, cymryd rhan mewn hyfforddiant, a symud allan o NEET. Dylai rhaglen TSC+ felly ystyried elfennau cymdeithasol ehangach, rhai ansoddol a meintiol, i'w cynnwys yn yr asesiad effaith wrth ddadansoddi cost a budd cymdeithasol y rhaglen. Dylai hyn gynnwys ffactorau fel sgoriau WELLBY ar gyfer bodlonrwydd â bywyd ac arbedion iechyd, yn enwedig yn sgil goblygiadau pandemig Covid-19 ar bobl ifanc.

**Argymhelliad 9**

Dylid cynnwys cwestiynau am fodlonrwydd â'u bywyd ar ffurflenni cofrestru ac ailymweld â'r cwestiynau fel rhan o'r arolwg i gyfranogwyr.

**Dull methodolegol a pharu**

6.14 Oni bai y gellir cryfhau'r data a amlinellir uchod drwy gysylltu â data arall er mwyn caniatáu'r ystod o newidynnau canlyniadau y mae TSC+ yn debygol o effeithio arnynt, bydd unrhyw ddulliau lled-arbrofol o fesur effaith yn gyfyngedig o ran cwmpas ar gyfer asesu effaith TSC+. Awgrymir felly y dylid cynnal ymarfer modelu effaith meintiol, gan ddefnyddio'r fframweithiau effaith sydd ar gael a ffynonellau data eraill o raglenni tebyg, gydag effeithiau parhaus a phriodoli yn cael eu pennu o lenyddiaeth ynghyd â dangosyddion hunanbriodoli a gasglwyd yn ystod yr arolwg i gyfranogwyr.

**Gwerth am arian**

6.15 Cynigir fframwaith dadansoddi cost a budd cymdeithasol ar gyfer asesu gwerth am arian a hwnnw'n cyd-fynd â Llyfr Gwyrdd y Trysorlys a'i ganllawiau atodol.

6.16 Oherwydd yr amrywiaeth eang yn natur cymorth TSC+ (o ran maint a dwyster/hyd) bydd hi'n anodd grwpio'r ymyriadau ar unrhyw lefel, er y gellid cael rhywfaint o fewnwelediad ar sail ddaearyddol, neu ar sail contractwr. Fodd bynnag, byddai angen archwilio hyn â naratif ansoddol addas, er mwyn dal y naws yn natur y cymorth.

Argymhelliad 10

Dylid rhedeg model dadansoddi cost a budd cymdeithasol (SCBA) ar draws y rhaglen gyfan i ddechrau arni ac archwilio grwpiau posibl yn seiliedig ar ddaearyddiaeth a chontractwyr (ond os nad yw hyn yn rhoi mewnwelediad defnyddiol, gellid rhoi'r gorau iddi).

## Atodiad A: Dulliau methodolegol

**Paru sgorau tueddiad** (propensity score matching)

Mae paru sgorau tueddiad (PSM) yn ddull anarbrofol arall (yr un a ffefrir) y gellid ei ddefnyddio i amcangyfrif effaith rhaglen TSC+. Un apêl i'r dull hwn yw ei fod yn ceisio dynwared hap-dreial dan reolaeth drwy greu grŵp rheoli ar ôl yr ymyrraeth.

Mae'r sgôr tueddiad yn rhoi sgôr cydbwyso sy'n caniatáu ar gyfer paru agos rhwng y grŵp ymyrraeth a grŵp cymharu ac mae'n ymwneud â'r tebygolrwydd y bydd person (neu uned) â nodweddion penodol yn y grŵp cymharu yn cael ei neilltuo i'r grŵp ymyrraeth ar sail nodweddion sylfaenol yr arsylwyd arnynt (e.e. oedran, rhywedd, ethnigrwydd, cymhwyster blaenorol, galwedigaeth, ac ati).

Mae risgiau o ran gogwydd, fel gyda phob methodoleg gyfatebol; felly, mae profion cadernid PSM yn hanfodol. Mae profion yn cynnwys edrych yn weledol i weld a yw'r paru wedi cwmpasu'r ystod o sgorau tueddiad, amcangyfrif pa mor gadarn yw'r canlyniadau i ogwydd nas arsylwyd arno (profion ffiniau Rosenbaum), ac archwilio cydbwysedd nodweddion y cyfranogwyr a'r grŵp rheoli arfaethedig.

**Dull dadansoddi**

**Dadansoddiad atchweliad** (regression)

Yn dilyn paru, dylid cyfuno data ar ddysgwyr TSC+ (y grŵp sy'n cael cymorth) a grwpiau cymharu cyfatebol (o PSM) a'u cyfuno yn un set ddata gyda dynodwr yn nodi a yw unigolion yn y grŵp cael cymorth neu'r grŵp cymharu. Wedi hynny, byddai atchweliad amryw ffactorau yn cael ei amcangyfrif:

$$Y = \beta_0 + \beta_1 T + \sum \beta i Xi, \text{ gan fod } i = 2, \ldots n$$

**Y:** yw'r newidyn canlyniad sy'n cael ei fodelu.

**Xi:** mae hwn yn cynrychioli'r set o newidynnau esboniadol posibl eraill a ddefnyddir i baru'r grŵp sy'n cael cymorth â'r grŵp cymharu, ynghyd â newidynnau posibl i ganfod effaith amodau'r farchnad lafur leol ar y canlyniad wedi'i fodelu, gan nad yw paru o fewn yr un ardaloedd yn debygol o fod yn ymarferol.

**T:** yw'r newidyn cael cymorth, sy'n cymryd gwerth o 1 i bawb yn y grŵp a gafodd gymorth (dysgwyr) a 0 i'r rhai yn y grŵp cymharu cyfatebol.

**β1:** mae hwn yn cynrychioli effaith cael cymorth drwy wneud cwrs TSC+ ar y newidyn canlyniad wedi'i fodelu.


Yr her gyda dadansoddiad atchweliad yw mai dim ond yn dechnegol y mae'n dal y cysylltiad rhwng y newidynnau annibynnol a'r newidynnau canlyniad. Mae dibynadwyedd y model yn gwbl ddibynnol ar y newidynnau rheoli a ddefnyddir fel rhan o'r broses.

**Gwahaniaeth mewn gwahaniaethau** (difference in differences)

Dewis arall yw modelu effaith y rhaglen gan ddefnyddio dull gwahaniaeth-mewn-gwahaniaethau (DiD), fersiwn o fodel effaith sefydlog lle gwneir cymhariaeth rhwng y newidiadau a welwyd mewn enillion/cyflog dros amser yn y grŵp a gafodd gymorth a'r grŵp rheoli. Yn gryno, effaith y polisi yw'r gwahaniaeth rhwng cyfraddau NEET ar T1 (cyn-ymyrraeth) a T2 (ôl-ymyrraeth) yn y grŵp a gafodd gymorth namyn y gwahaniaeth mewn canlyniadau yn T1 a T2 yn y grŵp cymharu.

Fodd bynnag, mae dull gwahaniaeth-mewn-gwahaniaethau yn dibynnu ar ragdybiaeth tueddiadau cyfartal (gweler Ffigur 1 isod). Mae hyn yn golygu bod gan y newidyn canlyniad linell duedd hirdymor debyg ar gyfer y grŵp a gafodd cymorth a'r grŵp rheoli cyn gweithredu'r ymyrraeth. Gellir defnyddio methodoleg gyfatebol, fel PSM, i lunio grŵp rheoli addas cyn belled â bod y rhagdybiaeth tueddiadau cyfartal yn dal ei lle ac yn parhau.

**Ffigur 1: Amcangyfrif gwahaniaeth-mewn-gwahaniaethau, esboniad graffig**




Nodwedd ddeniadol wrth gymhwyso amcangyfrifwr DiD yw nid yn unig bod effeithiau unigol (nodweddion anweladwy sy'n wahanol mewn unigolion ond yn sefydlog dros amser) yn cael eu dileu, ond bod effeithiau amser neu duedd hefyd yn cael eu dileu. Mae hyn yn golygu y gellir anwybyddu newidiadau macro-economaidd, megis COVID-19 neu'r argyfwng costau byw, cyn belled â bod y newidiadau hynny'n effeithio ar gyfranogwyr a'r rhai nad ydynt yn cymryd rhan yn yr un modd i sicrhau bod i) y rhagdybiaeth tueddiadau cyfartal yn parhau, a ii) bod newidiadau macro-economaidd yn effeithio ar y ddau grŵp yn yr un modd yn ystod y cwrs.

Mae hyn yn cynnwys dadansoddiad ystadegol i reoli effaith ffactorau eraill a allai effeithio ar y newidiadau a welwyd mewn enillion/cyflog. Mae angen grŵp rheoli neu wrthffeithiol.

### Dadansoddiad atchweliad sydd â newidyn cymorth parhaus

Mae ehangder y cynnig a geir drwy'r rhaglen yn ei gwneud yn anodd iawn i ganfod ei effaith. Nid yw 'cael cymorth' TSC+ yr un fath i bob cyfranogwr. Fel menter sy'n cael

ei harwain gan gyfranogwyr, mae’n hynod eang o ran natur y ddarpariaeth a gynigir. Mae cyfranogwyr yn gwneud cyrsiau ar ystod o lefelau gwahanol, yn cael profiad gwaith gwahanol ac yn cael cymorth dan arweiniad sy’n amrywiol yn ei ddwyster a’i hyd (ac felly costau).

Un opsiwn i’w ystyried fyddai creu ‘teipolegau’ cyfranogiad — yn y bôn, categorïau y cytunwyd arnynt y gellid eu rhedeg ar y cymorth. Wedyn, gellid cynnal dadansoddiadau atchweliadau yn erbyn y categorïau hyn. Er y byddai hyn yn gwella cryfder paru ar bethau fel cymwysterau neu gwrs sgiliau, mae perygl y byddai culhau’r diffiniad o gategorïau yn lleihau maint y grŵp ymyrraeth; byddai profi paramedrau yn erbyn niferoedd dysgwyr yn gam allweddol wrth bennu ehangder y categorïau a ddyluniwyd trwy’r dull hwn. At hynny, gellid rhedeg manylebau gwahanol i benderfynu a yw darpariaeth benodol yn cynhyrchu mwy o fudd i gyfranogwyr.

**Newidynnau i'w hystyried yn y model atchweliad a ffefrir**

Fel y crybwyllwyd yn flaenorol yn yr adroddiad, byddem yn argymell rhedeg cyfres o fodelau atchweliad i archwilio:

- newidiadau NEET dros amser
- bodlonrwydd â bywyd

Mae’n debygol y byddai newidynnau esboniadol neu annibynnol i’w hystyried fel rhan o’r dadansoddiad atchweliad yn cynnwys y canlynol, yn dibynnu a fyddent ar gael ai peidio:

- Cymhwyster uchaf cyn cofrestru
- Lefel darpariaeth y cwrs (cyfwerth â FfCCHC – 1,2 a 3)
- Rhywedd
- Ethnigrwydd
- A yw dysgwr yn ystyried bod ganddo anhawster dysgu, anabledd neu broblem iechyd ai peidio